



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Memorandwm Esboniadol
yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

Gorffennaf 2023

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Chwefror 2023, a gosodir yn awr Femorandwm diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, byddai darpariaethau **Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)** a gyflwynwyd gennyf i ar 13 Chwefror 2023 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

4 Gorffennaf 2023

Cynnwys

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL	5
Pennod 1: Disgrifiad	5
Pennod 2: Cymhwysedd deddfwriaethol	6
Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	7
Pennod 4: Ymgynghori	14
Pennod 5: Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	16
Tabl yn crynhoi'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)	17
RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL	20
Pennod 6: Aseiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)	20
Crynodeb	20
Cyflwyniad	23
Opsiynau	25
Costau a manteision	27
Pennod 7: Aseiad cystadleuaeth	33
Pennod 8: Crynodebau o'r asesiadau effaith	34
Pennod 9: Adolygu ar ôl gweithredu	36
ATODIADAU	38
Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol	38
Atodiad 2 – Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog	42
Atodiad 3 – Aseiad Effaith Integredig – Adrannau 1 ac 8	46
Atodiad 4 – Newidiadau o sylwedd i'r Memorandwm Esboniadol – Fersiwn 2 Gorffennaf 2023	60

Rhestr o acronymau

CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
DHSC	Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU
HIA	Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
PSED	Dyletswydd Cydraddoldeb Gwasanaeth Cyhoeddus
PSR	Cyfundrefn Dethol Darparwyr
RIA	Asesiad Effaith Rheoleiddiol
UNCRC	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

Pennod 1: Disgrifiad

1. Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn darparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer cyflwyno is-ddeddfwriaeth i alluogi cyflwyno cyfundrefn gaffael bwrpasol a fydd yn gymwys i wasanaethau iechyd GIG Cymru.
2. Yn gryno, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer:
 - "Pŵer datgymhwyso" a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau Deddf Caffael 2023 (Bil sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd) a fyddai fel arall yn gymwys i drefniadau caffael gwasanaethau iechyd GIG Cymru;
 - "Pŵer creu" i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno, drwy reoliadau, gyfundrefn gaffael newydd, ar wahân, ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru.
3. Nod y Bil ac is-ddeddfwriaeth bosibl fydd rhoi'r gallu i sefydliadau megis y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru i weithredu arferion caffael mwy hyblyg wrth gyrchu gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Rhaglen Lywodraethu¹ strategol Llywodraeth Cymru; datblygu cyfundrefn gaffael ar gyfer y gwasanaeth iechyd sy'n diwallu anghenion gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac sy'n mynd i'r afael ag anghysondeb yn y cyfundrefnau caffael gwasanaethau iechyd sy'n cael eu cynnig yn Lloegr.

¹ [Rhaglen lywodraethu | LLYW.CYMRU](#)

Pennod 2: Cymhwysedd deddfwriaethol

4. Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru) ('y Bil') yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cefndir

5. Gall caffael weithredu fel galluogwr allweddol i helpu i gyflawni blaenoriaethau strategol. Ar hyn o bryd, y prif fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a Lloegr yw'r 'gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn'² a nodir yn rheoliadau 74-78 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Rheoliadau 2015).³

6. Nid yw gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn (sy'n cynnwys iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig) yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn gaffael lawn o dan Reoliadau 2015. Eu nod yw caniatáu mwy o hyblygrwydd i awdurdodau contractio mewn perthynas â'r ffurf gaffael i'w dilyn ar gyfer gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn ac mae'n caniatáu i awdurdodau contractio addasu gweithdrefn i ddiwallu eu hanghenion penodol, cyn belled â bod y weithdrefn a fabwysiadwyd yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion craidd tryloywder a thriniaeth gyfartal.

7. Yn dilyn y penderfyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae cynigion i newid y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn caffael nwyddau a gwasanaethau ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cyflwyno cyfundrefn gaffael newydd drwy ei Bil Caffael⁴, sy'n cael ei ystyried gan Senedd y DU ar hyn o bryd. Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud y penderfyniad y bydd awdurdodau contractio Cymru yn cael eu cynnwys yn niwygiadau caffael Llywodraeth y DU ac adlewyrchir hyn yn y modd y mae'r Bil Caffael wedi'i ddrafftio, ac yng nghwmpas y Bil.

8. Ar wahân i hyn, mae cynigion i newid y ffordd y bydd gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu caffael yn Lloegr o ganlyniad i ddarpariaethau yn Neddf Iechyd a Gofal 2022 Llywodraeth y DU⁵. Mae'r Ddeddf hon yn diwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 ac yn galluogi i gaffael gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr gael ei dynnu o gwmpas rheolau caffael sy'n gymwys ar hyn o bryd (a nodir yn Rheoliadau 2015) ac i set newydd o reolau caffael gael ei rhoi ar waith i ddisodli Rheoliadau 2015. Mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu cyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, sef y Gyfundrefn Dethol Darparwyr (PSR). I reoli'r gorgyffwrdd posibl rhwng y PSR a'r Bil Caffael, mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys cymal yn y Bil Caffael sy'n caniatáu i Weinidog y Goron, drwy reoliadau, ddatgymhwyso darpariaethau'r Bil lle mae darpariaethau a wneir mewn rheoliadau o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn gymwys.

² [Microsoft Word - canllawiau LTR f28 diweddarwyd 2015 i'w cyhoeddi \(1\).docx \(publishing.service.gov.uk\)](#)

³ [Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 \(legislation.gov.uk\)](#)

⁴ [Bil Caffael \[Tŷ'r Arglwyddi\] - Biliau Seneddol - Senedd y DU](#)

⁵ [Deddf Iechyd a Gofal 2022 \(legislation.gov.uk\)](#)

9. Bydd cyfundrefn PSR newydd DHSC yn berthnasol i gaffael y GIG yn Lloegr yn unig. Er y bydd manylion y gyfundrefn newydd yn cael eu nodi mewn rheoliadau sydd ar y gweill gan Lywodraeth y DU, ei nod cyffredinol yw symud i ffwrdd o'r disgwyliad y ceir cystadleuaeth o dan yr holl amgylchiadau a symud tuag at system o gydweithio a phartneriaeth, sy'n helpu i uno gwasanaethau ar draws y system iechyd gyfan. Bwriad y dull hwn yw cael gwared ar lefelau diangen o dendro cystadleuol, dileu rhwystrau i integreiddio gofal, a hyrwyddo datblygiad cydweithio sefydlog.

10. Byddai'r PSR yn rhoi'r hyblygrwydd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn GIG Lloegr a sefydliadau llywodraeth leol yn Lloegr i drefnu gwasanaethau iechyd sy'n hyrwyddo orau buddiannau cleifion a'r boblogaeth o fewn eu hardaloedd, yn ogystal ag ystyried y gwerth am arian cyhoeddus.

Trefniadau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd

11. Mewn sefyllfaoedd lle nad oes gan GIG Cymru y capasiti mewnol na'r gallu arbenigol i ddiwallu anghenion cleifion, mae'n comisiynu'r gofal hwn gan GIG Lloegr neu'r sector elusennol/darparwyr preifat yng Nghymru a Lloegr (a elwir yn 'ddarparwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG'). Mae GIG Cymru yn comisiynu darparwyr ar draws ystod eang o ddisgyblaethau, gan gynnwys:

- Gwasanaethau Iechyd Meddwl, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS);
- Gwasanaethau Anabledd Dysgu;
- Cartrefi Gofal a Chartrefi Nyrsio;
- Gofal Cartref, gan gynnwys Llety â Chymorth; a
- Gofal pobl hŷn.

12. Mae GIG Cymru yn cael gaffael ar y gwasanaethau hyn drwy amrywiaeth o ddulliau ar hyn o bryd, gan gynnwys cytundebau GIG Cymru i GIG Lloegr, cytundebau yn ôl y gofyn (gan gynnwys fframweithiau), neu drwy'r gweithdrefnau caffael o dan Reoliadau 2015.

Effaith newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU ar drefniadau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd

'Cyfundrefn cyffyrddiad ysgafn' Rheoliadau 2015

13. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru yn cael eu caffael yn unol â'r 'gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn' o dan Reoliadau 2015. Nid yw gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn lawn o dan Reoliadau 2015, ac mae'r gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn yn caniatáu hyblygrwydd i awdurdodau contractio ddefnyddio disgresiwn o ran ffurf y caffael, a'r gallu i fabwysiadu a/neu addasu gweithdrefn i ddiwallu anghenion awdurdod contractio; er bod rhaid i'r weithdrefn a fabwysiadir fod yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion tryloywder a thriniaeth gyfartal.

Bil Caffael Llywodraeth y DU

14. Nid yw'r Bil Caffael yn cadw'r 'gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn' yn ei ffurf bresennol a bydd yn ceisio cyflwyno'r cysyniad o 'gontract cyffyrddiad ysgafn' (fel y'i diffinnir mewn rheoliadau) sy'n elwa ar eithriadau i dendro cystadleuol llawn o dan brif ddarpariaethau'r Bil. Bydd y Bil hefyd yn caniatáu dyfarnu'n uniongyrchol gontractau cyhoeddus ar gyfer cyflenwi gwasanaethau o ddewis defnyddwyr yn unol â gwasanaethau sydd wedi'u dynodi o dan y gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn.

Cyfundrefn Dethol Darparwyr DHSC

15. Bydd y Gyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig yn disodli'r rheolau caffael presennol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr ac yn darparu cyfleoedd i awdurdodau contractio symud i ffwrdd o'r disgwyliad o gystadleuaeth o dan yr holl amgylchiadau a thuag at system o gydweithio a phartneriaeth. Bydd y trefniant hwn yn caniatáu i awdurdodau contractio naill ai barhau â'r trefniadau presennol gyda darparwr presennol, nodi contract gyda darparwr addas heb gynnal proses gaffael gystadleuol, neu'r gallu i brofi'r farchnad drwy broses gaffael gystadleuol.

16. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw y bydd y broses o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn aros o dan gwmpas 'Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn' Rheoliadau 2015 a diwygiadau sydd i ddod o dan Fil Caffael Llywodraeth y DU; tra bydd proses gaffael gwasanaethau iechyd yn Lloegr yn mabwysiadu'r PSR arfaethedig.

17. Bydd y newidiadau arfaethedig yn golygu y bydd dwy gyfundrefn caffael gwasanaethau gofal iechyd ar wahân ar waith yn y ddwy wlad. Mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at ganlyniadau ymarferol anfwriadol ar gyfer caffael a chomisiynu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol. Gallai'r effeithiau gynnwys:

- i. Aflunio'r plattform caffael gwasanaethau iechyd cyfochrog presennol rhwng Cymru a Lloegr;
- ii. Cyfyngu ar y gallu i gomisiynu gwasanaethau iechyd ar y cyd rhwng GIG Lloegr a GIG Cymru, a manteision cysylltiedig arbedion maint ariannol ac adnoddau;
- iii. Anawsterau posibl i GIG Cymru o ran cael mynediad at fframweithiau gwasanaethau gofal iechyd sy'n bodoli eisoes;
- iv. Cyfyngu ar awydd cyflenwyr i gyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru oherwydd bod rhaid iddynt gymryd rhan mewn gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio caffael a chymryd rhan mewn ymarferion tendro cystadleuol. Gallai hyn gynyddu costau a phwysau adnoddau i GIG Cymru wrth gaffael a denu cyflenwyr o ansawdd uchel yn y dyfodol.

18. Mae union fanylion sut y bydd y PSR yn gweithredu yn Lloegr yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gan DHSC a byddant yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth a chanllawiau a gynhyrchir gan GIG Lloegr. Felly, mae'r effeithiau posibl uchod wedi'u nodi ar sail ystyriaeth o'r manylion a ddarparwyd yn nogfen ymgynghori PSR DHSC⁶.

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

19. Gallai'r diwygiadau arfaethedig a ddisgrifir yn gynharach yn y Bennod hon beri risgiau a heriau penodol i wasanaethau iechyd yng Nghymru. Yn sgil hyn, mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod cyfle i ddiwygio'r gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd a datblygu cyfundrefn i'r dyfodol a fydd yn ceisio lliniaru'r risgiau a'r heriau uchod a diwallu anghenion gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

20. Nod Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) fydd cyflwyno'r pwerau sydd eu hangen i greu cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd y gellir ei datblygu mewn ffordd sy'n cefnogi cyflawni amcanion strategol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru⁷ ac yn lleihau'r potensial i Gymru fod dan anfantais yn sgil cyflwyno diwygiadau caffael ar gyfer gwasanaethau iechyd yn Lloegr.

Diben y darpariaethau

21. Er mwyn mynd i'r afael â'r cyfundrefnau caffael anghyson ar gyfer gwasanaethau iechyd rhwng Cymru a Lloegr a fydd yn deillio o gyflwyno'r PSR yn Lloegr, bydd angen pwerau deddfwriaeth sylfaenol newydd ar Weinidogion Cymru er mwyn eu galluogi i wneud is-ddeddfwriaeth ar y mater yn y dyfodol, fel sydd bellach yn cael ei wneud yn Lloegr.

22. Bydd y pwerau a geisir drwy'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ar gyfer cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, sy'n diwallu anghenion y sector orau ac sy'n ystyried effeithiau posibl cael cysondeb â'r dull PSR sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr, neu ddargyfeirio oddi wrtho. Fel rhan o hyn, mae'r Bil yn rhoi pŵer datgymhwyso i Weinidogion Cymru fel y gall caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru gael ei dynnu o'r gyfundrefn gaffael gyffredinol (boed o dan gyfundrefn bresennol Rheoliadau 2015, neu o dan ddiwygiadau yn y dyfodol o dan Fil Caffael Llywodraeth y DU). Felly, mae'r cam arfaethedig hwn yn rhoi'r mater ar sail gyfartal ac yn ceisio mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y dull gweithredu a ddefnyddiwyd gan DHSC yn Lloegr.

23. Mae darpariaethau'r Bil yn seiliedig ar y ddau brif bŵer canlynol:
i) "Pŵer datgymhwyso" i alluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau yn y Ddeddf Caffael a fyddai

⁶[Provider Selection Regime: supplementary consultation on the detail of proposals for regulations - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/provider-selection-regime-supplementary-consultation-on-the-detail-of-proposals-for-regulations)

⁷[Rhaglen lywodraethu | LLYW.CYMRU](https://www.gov.uk/government/consultations/rhaglen-lywodraethu-llYW-CYMRU)

- (wedi iddi gael ei phasio) yn berthnasol fel arall i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru;
- ii) "Pŵer creu" i alluogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu a gweithredu cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru, a hynny drwy is-ddeddfwriaeth.

Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael

24. Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu cyfundrefn ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion y sector yng Nghymru. Drwy wneud hynny, bydd yn galluogi datblygiad cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd (amlinellir manylion y gyfundrefn mewn is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol) i ystyried newidiadau cyfatebol sy'n cael eu gweithredu y tu allan i Gymru. Bydd hyn yn ceisio lleihau'r risgiau posibl a amlinellwyd yn gynharach yn y ddogfen hon ac yn manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno newidiadau sy'n addas i'r diben ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

25. Ni fydd y pwerau a roddir gan y Bil yn effeithio ar gaffael 'nwyddau' generig gan y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Cynigir na fydd rheoliadau a wneir o dan y Bil ond yn gymwys i gaffael gwasanaethau iechyd o fewn categorïau penodedig. O ran caffael nwyddau, rhagwelir na fydd y rheoliadau ond yn gymwys os ydynt yn 'gysylltiedig' â'r gwasanaeth iechyd sy'n cael ei gaffael ac yn bodloni unrhyw feini prawf eraill a nodir yn y rheoliadau hynny (megis terfyn ar werth cymharol). Bydd y broses o gaffael yr holl nwyddau a gwasanaethau eraill yn dal i fod yn ddarostyngedig i ddull cyfundrefn bresennol Rheoliadau 2015 a'r diwygiadau ehangach arfaethedig sy'n cael eu datblygu drwy Fil Caffael Llywodraeth y DU.

26. Bydd y dull a ddefnyddir gan y Bil yn caniatáu datblygu is-ddeddfwriaeth, yn ogystal â'r canllawiau caffael y bydd eu hangen i gyd-fynd â hi, i fanteisio ar nifer o gyfleoedd i ddefnyddio prosesau caffael i gefnogi'r sector yng Nghymru yn well.

27. Er enghraifft, rhagwelir y bydd cyfleoedd i gynorthwyo gweithwyr clinigol a chaffael proffesiynol yng Nghymru i ymrwymo llai o adnoddau i weithgarwch tendro a chanolbwyntio ar fwy o weithgareddau sy'n "ychwanegu gwerth" (megis rheoli contractau, monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol a datblygu partneriaethau cydweithredol), gan gynnal egwyddorion allweddol ynghylch ystyriaethau gwerth am arian ar yr un pryd. Bydd y Bil hefyd yn galluogi rheoliadau yn y dyfodol i gynorthwyo gyda sicrhau maes caffael tecach (os mai dyna'r sefyllfa bolisi a ffefrir) ac yn caniatáu i gyfundrefn y dyfodol alinio a chefnogi gofal cleifion, adfer o effaith Covid-19 ar ddarpariaeth gwasanaethau gofal iechyd a helpu i sicrhau canlyniadau iechyd gwell a gofal cleifion o ansawdd gwell.

Risgiau

28. Os na sicrheir y gallu i gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn lle'r trefniadau presennol, gall GIG Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n caffael gwasanaethau iechyd fod dan anfantais o ganlyniad i effeithiau newidiadau sy'n cael eu gwneud yn Lloegr. Gall y risgiau a'r heriau a amlinellwyd yn gynharach yn y ddogfen hon gael eu gwireddu; er ei bod yn anodd amcangyfrif maint eu heffaith ar hyn o bryd gan y bydd hyn yn dibynnu ar ffactorau megis ymatebion y farchnad a chyflenwyr i'r newidiadau sy'n cael eu gwneud.

29. Yn ogystal â natur sylweddol y risgiau, mae cyflymder y diwygiadau sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr yn golygu y byddai eu heffeithiau'n debygol o ddechrau cael eu teimlo o fewn amserlen gymharol fyr. Bwriad y Bil yw lliniaru'r risg hon drwy geisio'r pwerau gofynnol cyn gynted â phosibl ond gan ganiatáu lefelau priodol o graffu. O ran yr is-ddeddfwriaeth ddilynol, y bwriad yw y bydd yn cael ei chyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ac yn cael ei llywio gan ymgynghori ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid yr effeithir arnynt.

Sylfaen dystiolaeth

30. Roedd tystiolaeth a ddarparwyd fel rhan o'r asesiadau effaith craidd⁸ ar gyfer craffu ar Fil Iechyd a Gofal DHSC yn cynnwys crynodeb o'r effeithiau ymddangosiadol yn ymwneud â Dewis a Dethol Darparwyr. Roedd y crynodeb yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o ymgynghoriad gan GIG Lloegr ar ei 'Gynllun Tymor Hir'⁹ ac ymgysylltu ar gynigion o ran newidiadau posibl i ddeddfwriaeth¹⁰, a oedd yn nodi cefnogaeth gref i newidiadau er mwyn rhoi mwy o ryddid i gomisiynwyr y GIG benderfynu pryd mae angen proses gaffael.

31. Yn 2019, bu GIG Lloegr yn ymgynghori ar y cynigion a nodwyd ym Mil Iechyd a Gofal DHSC¹¹ ac, yn 2021, ymgynghorodd ar fanylion y PSR arfaethedig yn Lloegr¹², a oedd yn dangos consensws cryf o blaid y cynigion ac a oedd yn croesawu newid i ffwrdd o gystadleuaeth yn ddiodyn a symudiad tuag at gyfundrefn a oedd yn lleihau biwrocratiaeth a chostau diangen.

32. Yn ogystal, cyhoeddodd DHSC ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod gwanwyn 2022 i gael barn a thystiolaeth gan rhanddeiliaid ehangach i ddeall y'r effeithiau, manteision, costau ac arbedion disgwylidig sy'n deillio o weithredu'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig yn Lloegr.¹³ Nid yw canlyniadau'r ymarfer ymgynghori hwn wedi'u cyhoeddi eto.

33. Mae'r adborth a'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o ymarferion ymgynghori ar y PSR yn Lloegr yn debygol o fod yn debyg i'r rhai ar gyfer Gymru. Mae'r rhagdybiaeth hon yn seiliedig ar y ffaith bod arferion caffael presennol yn y sector yn gweithredu ledled y DU, gyda nifer o gontractau ar y cyd rhwng cyflenwyr GIG Lloegr a Chymru eisoes ar waith a chyflenwyr y gwasanaeth iechyd yn gweithio ledled y DU ar hyn o bryd. Felly, ni ddisgwylir i'r adborth o ymarferion ymgynghori DHSC a GIG Lloegr ar y PSR a'r gallu i'w trosglwyddo a chymhwyso i Gymru fod yn wahanol iawn.

34. Mae ymgysylltiad rhagweithiol â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru wedi'i gynnal wrth ddatblygu'r Bil, sy'n cael mwy o sylw ym Mhennod 4.

⁸ [Health and Care Act 2022 Core Measures Impact Assessment \(publishing.service.gov.uk\)](#)

⁹ [NHS Long Term Plan](#)

¹⁰ [Cyflwyniad PowerPoint \(england.nhs.uk\)](#)

¹¹ [Microsoft Word - NHS's recommendations to Government and Parliament - Final.docx \(england.nhs.uk\)](#)

¹² [B0706-NHS-Provider-Selection-regime-response-to-consultation.pdf \(england.nhs.uk\)](#)

¹³ [Provider Selection Regime: supplementary consultation on the detail of proposals for regulations - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Pennod 4: Ymgynghori

35. Oherwydd natur arbenigol y pwnc, y brys i ymateb i effeithiau'r diwygiadau caffael arfaethedig yn Lloegr ac o ystyried y farn nad yw'r pwerau sy'n cael eu creu gan y Bil ond yn effeithio ar GIG Cymru a sectorau penodol y gwasanaeth iechyd, ni chafwyd ymgynghoriad agored ffurfiol ar Fil drafft.

36. Yn ystod Cyfnod 2 ym mhroses graffu'r Senedd, gwnaed gwelliant l'r Bil I gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol l Weinidogion Cymru gynnal unrhyw ymgynghoriad y maent yn ei ystyried yn briodol cyn gwneud rheoliadau o dan adran 10A newydd Deddf y GIG (Cymru) 2006. Bydd y ddarpariaeth newydd yn y Bil yn cefnogi ymrwymiad i gynnal ymgynghoriad 12-wythnos cyhoeddus agored llawn fel rhan o'r gwaith o ddatblygu rheoliadau ac wrth baratoi unrhyw ganllawiau caffael newydd ochr yn ochr â GIG Cymru.

37. Yn y cyfamser, cynhaliwyd ymgysylltiad rhagweithiol â ffocws gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru wrth ddatblygu'r Bil, gan gynnwys GIG Cymru, Undebau Iechyd, CLILC a chomisiynwyr gofal cymdeithasol; a'r trydydd sector.

38. Bydd cyfle i ystyried yn llawn y materion a nodwyd gan randdeiliaid yn cael sylw yn ystod unrhyw gyfnod is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Darperir crynodeb byr o'r gwaith ymgysylltu allweddol a wnaed isod.

GIG Cymru

39. Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol ag arweinwyr cyllid, caffael a chomisiynu GIG Cymru yn ystod haf 2022.

40. Roedd arweinwyr caffael a chomisiynu GIG Cymru yn gyfarwydd â diwygiadau caffael arfaethedig Llywodraeth y DU, gan gynnwys bwriad DHSC i weithredu diwygiadau i drefniadau caffael gwasanaethau iechyd yn Lloegr drwy'r PSR arfaethedig.

41. Cynhaliwyd gweithdy gydag arweinwyr caffael a chomisiynu'r GIG i gasglu safbwyntiau ar gyflwyno PSR DHSC yn Lloegr ac i ddeall sut y gallai cynigion o'r fath effeithio ar gyrchu a darparu gwasanaethau iechyd ar gontract allanol yng Nghymru, ac a oedd angen gweithredu ynghylch diwygio trefniadau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru i liniaru unrhyw effeithiau anfwriadol sy'n deillio o gyflwyno'r PSR yn Lloegr.

42. Roedd trafodaethau gydag arweinwyr caffael a chomisiynu'r GIG yn dangos cefnogaeth eang ar gyfer mabwysiadu dull tebyg i PSR arfaethedig DHSC ac yn nodi nifer o risgiau / problemau i GIG Cymru o ganlyniad i beidio â gwneud hynny. Roedd y risgiau / problemau mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- Anhawster cael mynediad at fframweithiau presennol;

- Effeithiau negyddol ar adnoddau a chostau staff uwch oherwydd y gofyniad i dendro ystod eang o gytundebau fframwaith yn lle'r rhai a ddefnyddiwyd eisoes;
- Gofynion GIG Cymru o bosibl yn dod yn llai deniadol i ddarparwyr;
- Marchnad recriwtio deneuach ar gyfer Gwasanaethau Caffael yng Nghymru.

43. Drwy fod â'r gallu i fabwysiadu dull tebyg i PSR DHSC a chyfle i weithredu diwygiadau i drefniadau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru, nododd GIG Cymru nifer o fanteision posibl hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfle am broses gaffael symlach; a
- Chyfle i ailffocysu adnoddau proffesiynol clinigol a chaffael ar fwy o weithgareddau sy'n ychwanegu gwerth megis rheoli contractau, monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol a datblygu partneriaethau â chyflenwyr.

44. I grynhoi, awgrymodd yr ymarfer gonsensws eang ymhlith arweinwyr caffael a chomisiynu GIG Cymru o blaid cymryd camau i weithredu diwygiadau i drefniadau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru, gyda chylfundrefn wedi'i seilio ar y dull PSR arfaethedig yn Lloegr er mwyn rhoi cyfundrefn gaffael y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ar sail gyfartal.

Undebau Iechyd yng Nghymru

45. Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r Undebau Iechyd yng Nghymru yn ystod hydref 2022 drwy Bwyllgor Busnes Fforwm Partneriaeth Cymru. Gofynnwyd i'r grŵp a oedd angen cymryd unrhyw gamau ar ddiwygio trefniadau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru o ganlyniad i gyflwyno'r diwygiadau caffael yn Lloegr.

46. Er ein bod yn cydnabod bod manylion dull o'r fath yn anodd eu mesur yn y cyfnod pwerau sylfaenol, nododd y pwyllgor fod angen dadansoddiad pellach er mwyn deall effaith lawn cyflwyno diwygiadau i gyfundrefn gaffael y gwasanaeth iechyd yng Nghymru a'u cydberthynas â'r PSR yn Lloegr.

47. I grynhoi, cododd y pwyllgor gwestiynau penodol ynghylch yr effaith ar wasanaethau, staff a gweithwyr presennol GIG Cymru, tryloywder a thegwch dyfarnu contract i ddarparwyr gwasanaethau iechyd a chysylltiadau â mentrau diwygio caffael ehangach presennol ac arfaethedig sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Rhanddeiliaid eraill

48. Ymgynghorwyd ag amryw o grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) .

49. I grynhoi, casglwyd adborth rhanddeiliaid ynghylch effaith bosibl y Bil ar wasanaethau a gweithwyr presennol GIG Cymru; tryloywder a thegwch dyfarnu contractau; gwell cyfleoedd i ymgysylltu â chyflenwyr gofal iechyd y trydydd sector a gwell cyfleoedd i gydweithio ar draws y sector a rhwng cyflenwyr a chyrrff comisiynu. Codwyd y cysylltiadau rhwng nodau'r Bil a mentrau diwygio caffael eraill sy'n cael eu harwain gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

50. Bydd ymgynghoriad â grwpiau economaidd a diwydiant yn cael ei gynnal yn haf 2023.

Pennod 5: Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

51. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Isod mae tabl is-ddeddfwriaeth sy'n nodi:

(i) Y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;

(ii) Ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;

(iii) Priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

(iv) Y weithdrefn a gymhwysir - hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

52. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Fel rhan o welliant yng Nghyfnod 2, mae dyletswydd wedi'i rhoi ar wyneb y Bil fod rhaid i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad fel y gwelant yn briodol. Bydd union natur yr ymgynghoriad yn cael ei benderfynu pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

53. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau ynghylch datblygu canllawiau. Mae'r ail dabl isod yn rhoi manylion y darpariaethau hyn.

Tabl yn crynhoi'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Tabl 1

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
2(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau at ddiben datgymhwyso darpariaethau Deddf Caffael (Senedd y DU) 2023 mewn perthynas â chaffael iechyd wedi'i reoleiddio yng Nghymru i'r graddau y gwneir darpariaeth amgen yn hynny o beth. Mae'r pŵer yn angenrheidiol er mwyn osgoi gorgyffwrdd rhwng y Ddeddf Caffael a'r gyfundrefn newydd sydd i'w sefydlu o dan Adran 3 o'r Bil. Mae angen i'r pŵer fod yn hyblyg er mwyn ymateb i gwmpas y rheoliadau a wneir o dan Adran 3 pan fyddant yn dod i rym. At hynny, mae angen iddo ganiatáu diwygiadau pellach i'r gyfundrefn honno yn y dyfodol gan y gallai esblygu yn y dyfodol. Nid dadreoleiddio gwasanaethau iechyd	Cadarnhaol	Gan fod y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso deddfwriaeth gaffael mewn perthynas â chaffael iechyd wedi'i reoleiddio yng Nghymru, ystyrir mai'r weithdrefn gadarnhaol yw'r weithdrefn briodol i sicrhau ei fod yn destun craffu gan y Senedd a chytundeb y Senedd.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			yng Nghymru yw bwriad y pŵer hwn; yn hytrach, ei fwriad yw datgymhwyso deddfwriaeth gaffael lle mae caffael gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn cael ei reoleiddio o dan y gyfundrefn newydd.		
3(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gosod gofynion ar awdurdodau perthnasol mewn perthynas â chaffael gwasanaethau iechyd at ddibenion y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Un o brif ddibenion cymryd y pŵer yw rhoi cyfundrefn gaffael ar waith sy'n cyfateb i'r un yn Lloegr. Nid yw manylion presennol y system hon yn hysbys eto, felly mae angen hyblygrwydd ar Weinidogion Cymru i allu gweithredu cyfundrefn sy'n ystyried y system yn Lloegr. At hynny, mae angen galluogi hyblygrwydd yn y gyfundrefn ar gyfer y dyfodol hefyd. Gan y gall natur y gwasanaeth iechyd a'r heriau y mae'n eu hwynebu newid dros amser, efallai y bydd hi'n briodol newid y gyfundrefn wrth i amser fynd	Cadarnhaol	Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno system gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd Cymru, felly ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol er mwyn sicrhau ei bod yn destun craffu gan y Senedd a chytundeb y Senedd.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			yn ei flaen fel ei bod yn fwy addas i'r gwasanaeth iechyd bryd hynny.		

Tabl 2 - Canllawiau

Adran neu Atodlen o'r Bil	Pŵer wedi'i roi ar	Ffurf	Pŵer
3(4)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Mae'r pŵer hwn yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau priodol ar gyfer awdurdodau perthnasol i gyd-fynd ag unrhyw reoliadau a gyflwynir o dan adran 3(2), ynghylch cydymffurfio â'r rheoliadau.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Pennod 6: Aseiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Crynodeb

54. Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil.
55. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'r tabl wedi'i ddylunio i gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).		
Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)		
Yr opsiwn a ffeirir: Opsiwn 2 - Cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) i ddarparu pwerau deddfwriaethol sylfaenol i Weinidogion Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth i alluogi cyflwyno cyfundrefn gaffael bwrpasol a fydd yn gymwys i wasanaethau iechyd GIG Cymru.		
Cyfnod: Cyflwyno	Cyfnod arfarnu: 2023-24 i 2025-26	Blwyddyn sail brisiau: 2022-23
Cyfanswm Cost Cyfanswm: £3,202,000 Gwerth presennol: £2,966,000	Cyfanswm Manteision Cyfanswm: 0 Gwerth presennol: £0	Gwerth Presennol Net (NPV): £-2,966,000

Cost weinyddol

<p>Costau: Mae disgwyl i'r Bil arwain at gostau gweinyddol i Lywodraeth Cymru o tua £672,000. Mae'r gost hon yn cynrychioli'r adnoddau staff sydd eu hangen i ddatblygu a gweithredu cyfundrefn caffael gwasanaeth iechyd newydd i Gymru.</p>			
Pontio: £672,000	Cylchol: £0	Cyfanswm: £672,000	PV: £622,000
<p>Arbedion cost: Nid oes unrhyw arbedion cost wedi'u nodi ar hyn o bryd.</p>			
Pontio: 0	Cylchol: £0	Cyfanswm: £0	PV: £0
<p>Cost weinyddol net: £672,000</p>			

Costau cydymffurfio

<p>Bydd cost ychwanegol i'r GIG neu i awdurdodau lleol wrth ymgyfarwyddo â'r gyfundrefn gaffael newydd a'i gweithredu o dan y Bil. Amcangyfrifir mai'r gost pontio i GIG Cymru yw £2,530,000 (wedi'i thalgrynnu i'r fil agosaf) a bydd yn cael ei gwasgaru dros y cyfnod o 2023 i 2026. Yn ogystal, mae cost pontio bosibl i awdurdodau lleol os mai nhw yw'r awdurdod caffael arweiniol. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud wrth ddatblygu'r gyfundrefn gaffael newydd i ddeall rhaniad cyfrifoldebau a'r goblygiadau ariannol.</p> <p>Nid yw'r costau/arbedion cost parhaus i awdurdodau comisiynu a darparwyd gwasanaethau yn hysbys ar hyn o bryd.</p>			
Pontio: £2,530,254	Cylchol: £0	Cyfanswm: £2,530,000	PV: £2,343,000

Costau eraill

Amherthnasol			
Pontio: 0	Cylchol: 0	Cyfanswm: 0	PV: £0

Costau ac anfanteision heb eu meintoli

Mae'r Bil hwn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru. Gan nad oes unrhyw gyfundrefn newydd wedi'i dylunio eto, nid oes modd cynnal asesiad manwl o'r costau a'r manteision cysylltiedig ar hyn o bryd.

Mae effeithiau posibl heb eu meintoli yn cynnwys:

- i. Costau i ddarparwyr wrth ymgyswngwrddo â'r cyfundrefnau caffael newydd (Bil Caffael Llywodraeth y DU a Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)) ac yn sgil newidiadau mewn prosesau ar gyfer eu mabwysiadu
- ii. Gallai arbedion cost ac adnoddau posibl i GIG Cymru godi o'r opsiwn i beidio â thendro'n gystadleuol ym mhob achos. Gallai hyn arwain at lai o angen i ymgymryd ag ymarferion caffael diangen ac arbedion effeithlonrwydd o ran adnoddau staff.
- iii. Gallai tynnu ymarferion tendro gorfodol arwain at lai o gostau gweinyddol i ddarparwyr, gydag arbedion yn cael eu gwneud yn sgil peidio â gorfod llunio a chyflwyno tendrau cystadleuol mwyach. Gallai hyn agor cyfleoedd yn y farchnad i BBaChau a'r Economi Sylfaenol nad oes ganddynt o reidrwydd yr adnoddau i gymryd rhan mewn ymarferion tendro cystadleuol ar gyfer contractau nad ydynt yn arwain at ddyfarnu contract yn y pen draw.

Manteision

- i. Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynigion ar gyfer cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG i Gymru, sy'n diwallu anghenion y sector orau, yn cynorthwyo i ddileu rhwystrau i gomisiynwyr a chaffaelwyr o ran gwella gofal cleifion ac yn ystyried effeithiau posibl cyd-fynd â'r dull PSR sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr neu ddargyfeirio o'r dull hwnnw.

Cyfanswm: 0

PV: 0

Tystiolaeth, rhagdybiaethau a ffactorau ansicr allweddol

Fel y nodwyd uchod, mae manylion a chwmpas unrhyw gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd yn y dyfodol yn cynrychioli ansicrwydd allweddol ar y pwynt hwn. Bydd asesiad pellach o'r costau a'r manteision tebygol i awdurdodau caffael, darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei gynnal ochr yn ochr â datblygu'r gyfundrefn newydd. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir yn y dyfodol.

Cyflwyniad

56. Mae'r darpariaethau a wneir gan y Bil wedi'u cyfyngu i roi pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru. O'r herwydd, mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn yr RIA hwn wedi'u cyfyngu i gostau adnoddau staff ar gyfer Llywodraeth Cymru a GIG Cymru ar y pwynt hwn, ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.

57. Bydd y Bil yn rhoi pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gweithredu newidiadau i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Cynhelir dadansoddiad cost a budd llawn fel rhan o ddatblygiad manwl is-ddeddfwriaeth a fydd yn ceisio cynnwys tystiolaeth ynghylch effaith unrhyw gyfundrefn newydd ar gontractau'r gwasanaeth iechyd a chostau cyflenwi gwasanaethau iechyd.

58. Mae'r costau a ddarperir ar gyfer amser staff Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r gwaith sy'n gysylltiedig â gweithredu darpariaethau'r Bil. Mae'r rhain yn gostau cyfle yn hytrach na gwariant ariannol ychwanegol.

59. Byddai angen talu costau a ddarperir ar gyfer GIG Cymru o dan y ddau opsiwn a gyflwynir. Dim ond i wasanaethau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru (a nwyddau neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny) y bydd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn berthnasol. Bydd yr holl nwyddau a gwasanaethau eraill yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn a nodir yn null cyfundrefn presennol Rheoliadau 2015 a'r diwygiadau ehangach arfaethedig sy'n cael eu datblygu drwy Fil Caffael Llywodraeth y DU. Felly, mae costau i GIG Cymru o dan opsiwn 1 yn debygol o godi o ganlyniad i newidiadau arfaethedig i Fil Caffael Llywodraeth y DU. Bydd costau i GIG Cymru o dan opsiwn 2 (Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)) yn codi dim ond os bydd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol **ac** os bydd rheoliadau ar gyfer cyfundrefn gaffael newydd yn cael eu rhoi ar waith.

60. Bydd cwmpas ac ehangder unrhyw gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd yn cael eu pennu drwy'r broses o ddatblygu'r rheoliadau. Yn unol â hynny, mae'n anodd mesur y costau penodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd ar hyn o bryd. Yn hynny o beth, ceir nifer o gostau a manteision heb eu meintoli yn yr RIA hwn, gan gynnwys effaith ariannol unrhyw newidiadau i gyfundrefnau caffael gwasanaethau iechyd ar gostau darparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae costau na ellir eu meintoli hefyd yn deillio o effaith unrhyw newidiadau ar ddarparwyr gwasanaethau iechyd, gan gynnwys darparwyr y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a fydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau i gyfundrefnau caffael.

61. Er enghraifft, i ddarparwyr gwasanaethau iechyd sy'n cymryd rhan mewn ymarferion tendro, mae'n anodd mesur unrhyw effaith cost, oherwydd ystod a natur ymarferion caffael a chapasiti a gallu adnoddau cwmnïau unigol i ymateb i dendrau. Fodd bynnag, gwneir rhagdybiaeth na ddylai'r gost i ddarparwyr fod yn ormodol o gymharu â'r costau sydd eisoes ynghlwm wrth gymryd rhan yng nghyfundrefnau caffael cyhoeddus presennol y DU.

62. Mae'n anodd hefyd mesur costau a manteision o ran adnoddau staff i GIG Cymru ar hyn o bryd ar gyfer newidiadau i arferion tendro fesul contract. Felly, yn yr asesiad hwn, mae amcangyfrif o gostau/manteision adnoddau staff uniongyrchol wedi'i gyfyngu i gostau cyflwyno ac ymgyswrtio â chyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd gan GIG Cymru. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd unrhyw gynnydd mewn costau wedi'i gyfyngu i gostau adnoddau staff a chostau addasu prosesau byrdymor mewn perthynas â sefydlu a gweithredu cyfundrefn gaffael newydd, gan gynnwys costau ymgyswrtio a hyfforddi staff. Caiff y costau hyn eu hadolygu'n llawn fel rhan o'r broses o ddatblygu is-ddeddfwriaeth.

63. Dylid nodi, fel rhan o'r ymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth sylfaenol yn Lloegr ar gyfer Deddf Iechyd a Gofal 2022, fod DHSC wedi cwblhau asesiad effaith mesurau craidd, gan gynnwys adolygiad o effeithiau ar Ddewis a Dethol Darparwyr¹⁴ a'r posibilrwydd o weithredu'r PSR yn Lloegr. Roedd yr asesiad wedi'i gyfyngu i effeithiau lefel uchel, ac mae'n **debygol y bydd y canfyddiadau'n debyg ar gyfer Cymru**, os bydd Gweinidogion Cymru yn dewis mabwysiadu cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd yn seiliedig ar y PSR. Ar hyn o bryd, mae DHSC yn cynnal asesiad effaith wedi'i gostio'n llawn fel rhan o'r broses o wneud rheoliadau ar gyfer y PSR. Ni ddisgwylir y bydd canlyniad yr ymarfer hwn a'r perthnasedd i Gymru yn wahanol iawn i'r costau a'r effeithiau posibl a nodwyd ar gyfer gweithredu'r PSR yn Lloegr.

¹⁴ [Health and Care Act 2022 Core Measures Impact Assessment \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk) – Provider Selection and Choice. t36.

Opsiynau

64. Mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

Opsiwn 1	Gwneud dim – cadw'r sefyllfa bresennol lle mae'r broses gaffael ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn parhau i gael ei llywodraethu gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015/Bil Caffael arfaethedig Llywodraeth y DU, gyda chymffurfio gaffael wahanol yn llywodraethu'r gwasanaethau hyn yn Lloegr.
Opsiwn 2	Cyflwyno deddfwriaeth – rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth i alluogi cyflwyno cyfundrefn gaffael bwrpasol a fydd yn berthnasol i wasanaethau iechyd GIG Cymru.

65. Deddfwriaeth gaffael sy'n rheoleiddio caffael nwyddau a gwasanaethau gan awdurdodau cyhoeddus yn y DU o fewn fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddio diffiniedig a ffurfiol. Felly, er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol i hwyluso diwygio trefniadau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru, diwygiadau i'r fframwaith deddfwriaethol yw'r unig ffordd ymarferol o alluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau rheoleiddiol. Felly, ni ystyriwyd unrhyw opsiwn arall nad yw'n rheoleiddiol.

Opsiwn 1 – Gwneud dim

Disgrifiad

66. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn cael pwerau i wneud deddfwriaeth sylfaenol i ddarparu opsiwn i weithredu is-ddeddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd i Gymru. Byddai hyn yn golygu y byddai caffael yr holl wasanaethau iechyd yng Nghymru yn parhau o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Rheoliadau 2015) hyd nes iddynt gael eu disodli gan ddiwygiadau o dan Fil Caffael Llywodraeth y DU ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau yn y DU yn gyffredinol.

67. Bydd angen i gaffaelwyr a chomisiynwyr gwasanaethau iechyd yng Nghymru addasu eu prosesau caffael presennol, sy'n cael eu rheoleiddio o dan

Reoliadau 2015 ar hyn o bryd, i fodloni gofynion Bil Caffael Llywodraeth y DU a rheoliadau a chanllawiau caffael a roddwyd ar waith oddi tano.

68. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyfnod pontio o 6 mis i hwyluso'r broses o symud o gyfundrefn bresennol Rheoliadau 2015 i'r gyfundrefn gaffael newydd o dan Fil Caffael y DU. Bydd angen i gaffaelwyr a chomisiynwyr gwasanaethau iechyd yng Nghymru addasu gweithdrefnau caffael sydd wedi hen ennill eu plwyf, gan roi polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau newydd ar waith, yn ogystal â hyfforddi staff i sicrhau bod ymarferion caffael yn gweithredu yn unol â gofynion Bil Caffael Llywodraeth y DU sydd ar ddod.

69. Ni fydd y dull gweithredu hwn yn darparu'r pwerau deddfwriaethol angenrheidiol i Weinidogion Cymru weithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd. O ganlyniad, bydd dwy gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd ar wahân ar waith rhwng Cymru a Lloegr, a allai arwain at y canlyniadau anfwriadol a amlinellir ym Mhennod 3 o'r ddogfen hon. **Felly, nid opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffefir.**

Opsiwn 2 – Yr opsiwn a ffefir –

Cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth i alluogi cyflwyno cyfundrefn gaffael bwrpasol a fydd yn gymwys i wasanaethau iechyd GIG Cymru.

Disgrifiad

70. O dan yr opsiwn hwn, caiff Bil ei gyflwyno i roi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig i gyflwyno cyfundrefn gaffael bwrpasol newydd a fydd yn gymwys i wasanaethau iechyd GIG Cymru.

71. Bydd y Bil yn caniatáu i'r broses o gaffael gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru gael ei thynnu o gwmpas Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Rheoliadau 2015) a diwygiadau caffael arfaethedig Llywodraeth y DU, a bydd yn galluogi Weinidogion Cymru i gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd i Gymru drwy reoliadau.

72. Yn ei dro, bydd hyn yn gyfle i ddyfeisio cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd gyda GIG Cymru a allai alinio, os dymunir, gyda'r PSR arfaethedig yn Lloegr. Bydd yr opsiwn hwn yn cynorthwyo i adfer 'tegwch' wrth gaffael ac yn lleihau'r risg i'r broses o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru o ganlyniad i ddiwygiadau sy'n cael eu gwneud y tu allan i Gymru.

Costau a manteision

73. Mae'r costau a'r manteision wedi'u hasesu dros gyfnod o dair blynedd, 2023-24 i 2025-26. Byddai'r cyfnod hwn yn ymdrin â chyfnod dylunio a gweithredu cychwynnol unrhyw gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd. Fel y nodwyd uchod, bydd gwaith pellach i asesu unrhyw oblygiadau ariannol parhaus yn cael ei wneud fel rhan o ddatblygu'r gyfundrefn newydd. Mae costau wedi'u disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EM sef 3.5%.

Opsiwn 1 – Gwneud dim

Costau

74. Dyma'r opsiwn sylfaenol ac, o'r herwydd, mae'r canlynol yn grynodedb o'r costau sylfaenol, ac fe'i cyflwynir i alluogi cymhariaeth â'r costau o dan Opsiwn 2.

75. Bydd costau gweinyddu a chostau rhedeg Llywodraeth Cymru ar gyfer swyddogion sy'n cefnogi'r rhyngwyneb rhwng Llywodraeth y DU wrth gyflwyno Bil Caffael Llywodraeth y DU. Cyflawnir y gweithgarwch hwn gan Gyfarwyddiaeth Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru.

76. Byddai'r opsiwn hwn yn cynrychioli 'busnes fel arfer' ac ni fyddai'n cyflwyno unrhyw gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru gan yr eir i'r costau hyn hyd yn oed heb Fil Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru).

77. Amcangyfrif y bydd cost staff Llywodraeth Cymru yn y Gyfarwyddiaeth Caffael Masnachol (CPD) sy'n cefnogi'r rhyngwyneb rhwng Llywodraeth y DU wrth gyflwyno Bil Caffael Llywodraeth y DU tua **£4,751,000** (wedi'i dalgrynnu i'r £000 agosaf), dros gyfnod o 3 blynedd.

78. **Tabl 4:**

Bil Caffael y DU - costau staffio CPD Llywodraeth Cymru				
Blwyddyn Ariannol	1 (2023-24) ¹⁵	2 (2024-25)	3 (2025-26)	Cyfanswm
	1,146,749	1,965,856	1,965,856	4,750,819

79. O dan yr opsiwn hwn, nid oes dyletswyddau gweinyddu sy'n ymwneud â diwygio trefniadau caffael gwasanaethau iechyd ar gyfer staff Llywodraeth

¹⁵ Er mwyn galluogi cymhariaeth â'r costau yn opsiwn 2 o dan Fil y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys ym mlwyddyn 1 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a mis Mawrth 2024.

Cymru. Bydd mewnbwn a rhyngweithio ar Fil Caffael y DU yn cael ei arwain gan staff sy'n gweithio yng Nghyfarwyddiaeth Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

80. Bydd y costau ariannol i GIG Cymru ac awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn cael eu priodoli i gostau yr eir iddynt wrth fodloni'r gyfundrefn reoleiddio newydd a fydd yn cael ei chyflwyno fel rhan o Fil Caffael Llywodraeth y DU. Bydd hyn o bosibl yn cynnwys amser ac adnoddau staff dros dymor byr i ddiwygio'r gweithdrefnau presennol, sefydlu canllawiau newydd ar gyfer y gyfundrefn gaffael a gweithgarwch ymgyfarwyddo a hyfforddiant cysylltiedig.

81. O ran effeithiau cost ehangach sy'n gysylltiedig â gweithredu Bil Caffael Llywodraeth y DU, mae Swyddfa'r Cabinet wedi cynnal asesiad effaith o'r Bil¹⁶, sy'n nodi'r costau lefel uchel a'r opsiynau o ran gweithredu cyfundrefn gaffael gyhoeddus newydd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn y DU. Mae'r costau a'r manteision sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwnnw yn cynnwys rhagdybiaethau ynghylch costau staff ar gyfer 'awdurdodau contractio' cyhoeddus, busnesau a sefydliadau trydydd sector. Mae'r data hwn yn cwmpasu'r DU i gyd, yn hytrach nag yn benodol i Gymru.

82. Heb wybod graddau llawn y rheoliadau dilynol a'r newidiadau gofynnol i weithdrefnau, llywodraethu a chyfundrefnau presennol o ran caffael o ganlyniad i Fil Caffael Llywodraeth y DU, mae'n anodd mesur y costau i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru (megis GIG Cymru) a darparwyr ar hyn o bryd.

83. Mae'r Bil Caffael yn cael ei ystyried gan y Senedd yn San Steffan ar hyn o bryd, felly bydd manylion pellach unrhyw gyfundrefn gaffael newydd a'r effeithiau dilynol yn cael eu hadolygu ar gam reoleiddio dilynol a phan fydd manylion llawn y newid arfaethedig i'r gyfundrefn yn hysbys.

Manteision/Anfanteision

84. O dan yr opsiwn hwn, bydd holl wasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru yn parhau i gael eu caffael o dan gyfundrefn bresennol Rheoliadau 2015 a Bil Caffael Llywodraeth y DU sydd ar ddod. Bydd hyn yn arwain at gael dwy gyfundrefn caffael gwasanaethau gofal iechyd ar wahân ar waith yn y ddwy wlad, a gall arwain at rai canlyniadau ymarferol anfwriadol ar gyfer caffael a chomisiynu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol (fel yr amlinellir ym Mhennod 3). Ni fydd angen Bil annibynnol i gael pwerau sylfaenol sy'n benodol i gaffael y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Gallai amser ac adnoddau staff Llywodraeth Cymru gael eu dargyfeirio i flaenoriaethau eraill Rhaglen

¹⁶ <https://bills.parliament.uk/publications/46429/documents/1767>

Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Ni fydd unrhyw gostau staff ychwanegol ar ben y costau a nodir yn Nhabl 4 ar gyfer y gyfarwyddiaeth caffael masnachol.

Opsion 2 – Yr opsiwn a ffeirir - Cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Costau

85. O dan yr opsiwn hwn, bydd cost ychwanegol i Lywodraeth Cymru pe bai Gweinidogion Cymru'n dewis gweithredu cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd. Byddai'r gost weinyddol hon yn cwmpasu datblygu a gweithredu polisi, arbenigedd polisi caffael a chymorth polisi ar gyfer gweithredu'r is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau. Mae amcangyfrif gorau o'r gost hon yn Nhablau 2 a 3 isod. Mae'r gost, y disgwylir iddi gael ei hysgwyddo rhwng 2023-26, yn cynrychioli cost cyfle adnoddau staff presennol, ac nid oes disgwyl iddi arwain at wariant ariannol ychwanegol.

86. **Tabl 5**

Rôl	Gradd	Cost staff flynyddol (£)¹⁷	Cyferth ag Amser Cyflawn	Cost y flwyddyn (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	Uwch Was Sifil	120,174	0.2	24,035
Arweinydd polisi	Gradd 7	86,731	1	86,731
Gweithiwr caffael proffesiynol	Gradd 7	86,731	0.2	17,346
Cymorth polisi	Swyddog Gweithredol Uwch	52,774	1	52,774
Cyfreithiwr (iechyd)	Gradd 7	86,731	0.5	43,366
Cyfreithiwr (caffael)	Gradd 7	86,731	0.5	43,366
Cyfreithiwr	Gradd 6	105,117	0.1	10,512

¹⁷ Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog ar gyfer bandiau cyflog staff y gwasanaeth sifil 2022-23. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, ac ati).

	CYFAN-SWM	624,989		278,129
--	------------------	----------------	--	----------------

87. Amcangyfrifir bod costau dros **gyfnod o 3 blynedd** fel a ganlyn:

88. **Tabl 6:**

	Blwyddyn 1 (2023-24)¹⁸	Blwyddyn 2 (2024-25)	Blwyddyn 3 (2025-26)	Cyfanswm (£)
Costau	115,887	278,129	278,129	672,144

89. Mae costau staff Llywodraeth Cymru uchod ym mlwyddyn 1 yn seiliedig ar gyfnod o 5 mis **wedi'r pwynt Cydsyniad Brenhinol a ragwelir** (mis Hydref 2023 yn ôl amcangyfrifon) a byddant yn cynnwys gweinyddu'n ymwneud â'r rheoliadau, ymgysylltu â rhanddeiliaid a drafftio canllawiau ar gyfer y gyfundrefn newydd gyda GIG Cymru

90. Felly, amcangyfrifir bod costau staff Llywodraeth Cymru ar gyfer Opsiwn 2 dros gyfnod o 3 blynedd yn **£672,000** (wedi'u talgrynnu i'r fil agosaf). Dylid pwysleisio na fydd y costau ym mlwyddoedd 2 a 3 ond yn codi os yw Gweinidogion Cymru'n dewis gweithredu cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd yng Nghymru.

91. O dan yr opsiwn hwn, bydd y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu Bil Caffael Llywodraeth y DU hefyd yn berthnasol. Mae costau gweinyddu a chostau rhedeg Llywodraeth Cymru ar gyfer yr elfen hon wedi'u cwmpasu ym mharagraffau 74-77 a **thabl 4** uchod o dan opsiwn 1, sef **£4,751,000** (wedi'u talgrynnu i'r £000 agosaf), dros gyfnod o 3 blynedd. Nid yw hon yn gost ychwanegol ar gyfer yr opsiwn hwn.

92. Yn yr un modd ag opsiwn 1, bydd GIG Cymru yn ysgwyddo cost ymgyfarwyddo a gweithredu o ganlyniad i Fil Caffael Llywodraeth y DU. Rhagdybir bod y gost hon yr un fath ag Opsiwn 1 ac nad yw'n gost ychwanegol. Fodd bynnag, o dan yr opsiwn hwn, efallai y bydd angen i GIG Cymru hefyd weithredu cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd, penodol i Gymru. Mae'r costau pontio sy'n gysylltiedig â hyn yn cynnwys adnoddau staff i ymgysylltu â rhanddeiliaid, diwygio gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes, sefydlu canllawiau ar y gyfundrefn gaffael newydd, ymgyfarwyddo a hyfforddiant cysylltiedig. Mae hyn yn cynrychioli cost bontio ychwanegol Opsiwn 2. Fodd bynnag, ni fydd y gost sy'n gysylltiedig â Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd

¹⁸ Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a mis Mawrth 2024

(Cymru) ond yn berthnasol ar ôl i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol a dim ond os bydd yr is-ddeddfwriaeth a'r gyfundrefn gaffael newydd yn dod i rym.

93. I roi enghraifft, mae rhagdybiaeth wedi'i gwneud y bydd y gwaith ychwanegol hwn yn arwain at uchafswm o 10% o gynnydd mewn costau rhedeg staff ar gyfer 257 o bersonél caffael GIG Cymru dros uchafswm o 3 blynedd. Yn seiliedig ar ddata gan GIG Cymru, mae hyn yn cynrychioli cost ychwanegol o **£2,530,000** (wedi'i thalgrynnu i'r £000 agosaf), dros gyfnod o 3 blynedd.

94. **Tabl 7:**

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) – costau staffio GIG Cymru				
Blwyddyn Ariannol	1 (2023-24) ¹⁹	2 (2024-25)	3 (2025-26)	Cyfanswm (£)
Cost (£)	436,251	1,047,000	1,047,000	2,530,254

95. O dan rai amgylchiadau, hwyrach mai'r awdurdod lleol yn hytrach na GIG Cymru yw'r awdurdod caffael arweiniol ar gyfer gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd. Os felly, byddai disgwyl i'r awdurdod lleol fynd i gost ymgyfarwyddo a gweithredu ar gyfer addasu i gyfundrefn gaffael newydd. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud wrth ddatblygu'r gyfundrefn gaffael newydd i bennu'r effaith ariannol ar awdurdodau lleol. Nid yw'r gost i awdurdodau lleol yn hysbys ar hyn o bryd.

96. Ar hyn o bryd, ystyrir nad yw'n ymarferol ceisio cynnal asesiad manwl o oblygiadau ariannol parhaus cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd. Felly, nid yw'r goblygiadau ariannol parhaus i awdurdodau caffael a darparwyr gwasanaethau yn hysbys.

Manteision/Anfanteision

97. O dan yr opsiwn hwn, bydd Gweinidogion Cymru yn cael pwerau mewn deddfwriaeth sylfaenol er mwyn galluogi'r opsiwn i weithredu cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd drwy is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn gyfle i weithredu mesurau i liniaru rhai o'r canlyniadau ymarferol anfwriadol ar gyfer caffael a chomisiynu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol (fel yr amlinellir yn Rhan 1 - Pennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol hwn).

¹⁹ Mae'r costau ym mlwyddyn 1 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a mis Mawrth 2024.

Effeithiau na ellir eu meintoli a gwaith pellach

98. Heb wybod graddau llawn y newidiadau gofynnol i weithdrefnau, llywodraethu a chyfundrefnau caffael presennol o ganlyniad i Fil Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru), mae'n anodd mesur y manteision i gyrff cyhoeddus yng Nghymru (megis GIG Cymru), cyflenwyr a busnesau ar hyn o bryd.
99. Mae Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol hwn yn nodi, yn fras, nifer o effeithiau posibl cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd. Bydd yr effeithiau'n cael eu hystyried ymhellach wrth ddatblygu cyfundrefn newydd ac asesiad manwl a gyhoeddir ochr yn ochr â'r is-ddeddfwriaeth berthnasol.
100. Gall yr asesiad manwl gynnwys ystyriaeth o'r canlynol:
- i. Y potensial i ddileu rhwystrau i gomisiynwyr a chaffaelwyr i wella gofal cleifion.
 - ii. Goblygiadau byrdymor o ran adnoddau i gyrff cyhoeddus sy'n addasu i'r gyfundrefn newydd. Yn y tymor hwy, maint unrhyw arbedion cost ac adnoddau a allai godi o'r opsiwn i beidio â thendro'n gystadleuol, gan arwain at lai o angen i ymgymryd ag ymarferion caffael diangen
 - iii. P'un a allai dileu ymarferion tendro gorfodol arwain at lai o gostau gweinyddol i fusnesau, gydag arbedion yn cael eu gwneud o'r angen i lunio a chyflwyno tendrau cystadleuol. Gallai hyn agor cyfleoedd yn y farchnad i BBaChau a'r Economi Sylfaenol nad oes ganddynt o reidrwydd yr adnoddau i gymryd rhan mewn ymarferion tendro cystadleuol ar gyfer contractau nad ydynt yn arwain at ddyfarnu contract yn y pen draw. Ymdrinnir â hyn ymhellach yn yr asesiad o gystadleuaeth isod.
 - iv. P'un a allai'r newid yn y gyfundrefn gaffael gynyddu/lleihau'r costau sy'n gysylltiedig ag ymglyfreitha yn dilyn dyfarnu contractau, a;
 - v. Yr effaith bosib ar gystadleuaeth ac a fydd hyn yn arwain at ganlyniadau tymor hwy o ran cost ac ansawdd gwasanaethau yng Nghymru.
101. Yn eu hasesiad o effaith y Bil Iechyd a Gofal²⁰, rhoddodd DHSC asesiad naratif i raddau helaeth o gyflwyno Dewis a Dethol Darparwr a'r PSR a'r effeithiau canfyddedig ar GIG Lloegr, cyflenwyr a busnesau ar gyfer mabwysiadu cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd yn Lloegr. Byddai disgwyl effeithiau a chanlyniadau tebyg yng Nghymru pe baem yn cyflwyno cyfundrefn gaffael debyg. Ymrwymodd DHSC i gynnal dadansoddiad pellach o'u Cyfundrefn Dethol Darparwyr derfynol a chyhoeddi eu hasesiad yn y cam is-ddeddfwriaeth.

²⁰ [Health and Care Act 2022 Core Measures Impact Assessment \(publishing.service.gov.uk\)](#)

Casgliad

102. I gloi, mae deddfwriaeth yn rheoleiddio caffael nwyddau a gwasanaethau gan awdurdodau cyhoeddus yn y DU o fewn fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddio diffiniedig a ffurfiol. Felly, bydd angen i Weinidogion Cymru gael pwerau mewn deddfwriaeth sylfaenol i newid y ffordd y mae gwasanaethau iechyd y GIG yn cael eu caffael yng Nghymru.
103. Mae Opsiwn 2 yn rhoi cyfleoedd i gyflwyno deddfwriaeth sy'n benodol i gaffael gwasanaeth iechyd y GIG ac yn caniatáu opsiynau i weithredu mesurau i liniaru yn erbyn rhai o'r canlyniadau ymarferol anfwriadol ar gyfer caffael a chomisiynu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol.
104. O ran effaith cost a manteision, nid yw'r opsiynau sy'n cael eu hystyried yn golygu costau sylweddol na dyletswyddau i Lywodraeth Cymru na GIG Cymru yn y cam deddfwriaeth sylfaenol.

Pennod 7: Aseiad cystadleuaeth

105. Cynhaliwyd aseiad cystadleuaeth i asesu effeithiau posibl gweithredu Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).
106. Yn y cam hwn, mae'n anodd mesur y goblygiadau cost ychwanegol i fusnesau, marchnadoedd a chystadleuaeth gan y bydd cwmpas unrhyw gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd yn cael ei bennu fel rhan o ddatblygu rheoliadau. Bydd ystyriaeth lawn o'r effeithiau ar farchnadoedd, busnesau a chystadleuaeth yn cael ei chwblhau maes o law yn y cam is-ddeddfwriaeth a chyda GIG Cymru fel rhan o ganllawiau ar unrhyw gyfundrefn gaffael newydd.
107. Mae'r prawf hidlo wedi'i gwblhau a daethpwyd i'r casgliad nad oes disgwyl i'r Bil gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth. Mae crynodeb o'r canfyddiadau wedi'i gynnwys isod.

A fyddai costau'r Bil yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy nag eraill?

108. Ni fydd y pwerau deddfu sylfaenol yn cael effaith uniongyrchol ar gwmnïau na busnesau. Fodd bynnag, rhagwelir y gallai unrhyw gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd y GIG sy'n cael ei gweithredu gan ddibynnu ar y pwerau hynny gael effaith gymedrol ar fusnesau, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Gall y gyfundrefn gwasanaethau iechyd newydd geisio symud i ffwrdd o sefyllfa o

dendro cystadleuol diofyn a rhoi disgresiwn i GIG Cymru drafod contractau a dyfranu contractau yn uniongyrchol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat, lle nad oes unrhyw fudd cyfiawnadwy i agor y broses i'r farchnad – h.y. mae'r darparwr gwasanaethau presennol yn darparu'r gwerth ariannol gorau a'r gwerth gorau i gleifion neu mae dewis cyfyngedig o un darparwr a ffeifir.

A fydd y cynigion yn effeithio ar strwythur y farchnad ac yn newid nifer y cwmnïau, neu faint y cwmnïau hynny? A fyddai'r Bil yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, costau nad yw cyflenwyr presennol yn gorfod eu talu? A fyddai'r Bil yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, costau nad yw cyflenwyr presennol yn gorfod eu talu?

109. Nid yw cwmpas unrhyw gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd y GIG yn derfynol eto, felly ni ellir mesur yr ystyriaeth lawn o'r effeithiau ar strwythur y farchnad a maint cwmnïau. Fodd bynnag, gallai cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd fod o fudd i fusnesau o ran lleihau amser a chostau staff sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno tendrau nad ydynt yn arwain at ddyfarnu contract i rai sefydliadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fusnesau llai a micro neu'r busnesau hynny yn y trydydd sector, nad oes ganddynt adnoddau ariannol na staff na'r arbenigedd i lunio ceisiadau dro ar ôl tro a pheidio ag ennill y gwaith. Gallai hyn gynnwys darparwyr gwasanaethau 'yr Economi Sylfaenol' yng Nghymru – gyda llawer ohonynt yn BBaChau a busnesau'r trydydd sector – gan ddarparu cyfle i sicrhau contractau heb orfod cyflwyno cynnig mewn ymarferion tendro cymhleth, costus a llafurus.

Pennod 8: Crynodebau o'r asesiadau effaith

110. Mae Asesiad Effaith Integredig (IIA) wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil. Mae adrannau 1 ac 8 o'r IIA ar gael yn **Atodiad 3**. Nodir isod grynodedb lefel uchel o'r canfyddiadau.

Asesiad o'r effaith ar hawliau plant

111. Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i ystyried. Ni fydd natur arwahanol y Bil yn cael effaith gadarnhaol na negyddol uniongyrchol ar blant a phobl ifanc, ar wahân. Bydd unrhyw effeithiau ar blant a phobl ifanc yng Nghymru o ganlyniad i gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yr un fath i oedolion. O ganlyniad, nid oes Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant annibynnol llawn wedi'i gwblhau.

112. Nid oes unrhyw gysylltiadau penodol rhwng y cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a Strategaeth Tlodi Plant Cymru.
113. Ni fydd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn cynyddu canlyniadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn benodol gan nad yw wedi'i hanelu at blant a phobl ifanc. Mae'r cynnig wedi'i ystyried yng ngoleuni hawliau plant ac nid oes unrhyw wrthdaro gydag erthyglau UNCRC wedi'i nodi.
114. Bydd mesurau i gefnogi plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu rheoliadau fel rhan o rwymedigaethau ehangach i wella gwasanaethau cyhoeddus drwy gaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

115. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i ystyried a nodwyd na fydd y ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar gydraddoldeb i bobl Cymru.
116. Caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei ystyried ymhellach wrth ddatblygu rheoliadau a chanllawiau a gynhyrchir mewn perthynas â chyfundrefn caffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG.
117. Mae GIG Cymru ac awdurdodau lleol yn sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus (PSED) sy'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ni fydd y ddyletswydd i'r sefydliadau hyn gydymffurfio â PSED yn cael ei heffeithio gan y pwerau deddfu sylfaenol arfaethedig ac unrhyw newidiadau ar gyfer cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru.

Offeryn Sgrinio'r Effaith ar Iechyd

118. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig wedi'i hystyried ochr yn ochr â'r broses sgrinio ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) ac yn erbyn y Rhestr Wirio Penderfynyddion Iechyd i ddeall a allai'r pwerau deddfwriaethol sylfaenol arfaethedig effeithio ar rai grwpiau o'r boblogaeth.
119. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau sgrinio wedi'u hystyried yng ngoleuni'r Rhestr Wirio Penderfynyddion Iechyd ac ni chanfuwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol. Felly, nid oes HIA llawn wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, caiff hyn ei ystyried ymhellach yn y cam datblygu rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig.

Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

120. Nid yw'r Bil yn creu nac yn addasu troseddau. Cynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith ar gyfiawnder ac ymgynghoriad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a benderfynodd nad oedd effaith ar y System Gyfiawnder neu fod yr effaith yn fach iawn.
121. Mae'r unig ymglyfreitha canfyddedig sy'n gallu cael ei gynhyrchu yn codi o ganlyniad i adolygiadau barnwrol neu herio'r cyrff iechyd cyhoeddus yng Nghymru sy'n gweithredu cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG o dan reoliadau'r dyfodol. Felly, nid yw'r duedd i gyflwyno her gyfreithiol yn hysbys ar hyn o bryd. Nid yw manylion y cynllun newydd, ac unrhyw effaith net a gaiff, wedi'u diffinio eto. Caiff hyn ei archwilio ymhellach wrth ddatblygu rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig.

Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

122. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gwblhau a'i rannu gydag Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru.
123. Pennir nad yw'r pwerau deddfwriaethol sylfaenol arfaethedig yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar themâu 1 a 3 o'r asesiad effaith. Mae disgwyl iddynt fod yn gefnogol i thema 2: cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
124. Caiff hyn ei archwilio ymhellach wrth ddatblygu rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig.

Asesiad o'r effaith ar fioamrywiaeth

125. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi'i gwblhau a'i rannu ag arweinwyr polisi bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru.
126. Ar ôl ystyried y cynigion yn erbyn blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol, ni nodwyd unrhyw effeithiau o ganlyniad i'r Bil arfaethedig. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth bellach i sut y gall bioamrywiaeth gael ei hintegreiddio i broses gaffael y gwasanaeth iechyd wrth ddatblygu rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig.

Pennod 9: Adolygu ar ôl gweithredu

127. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fonitro ac adolygu'r broses o weithredu'r Bil hwn, ac effeithiau ei ddarpariaethau yn ystod y cyfnod ar ôl gweithredu. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r dulliau mwyaf ystyrlon o fonitro effeithiau, gan gynnwys data caffael gweinyddol GIG Cymru ac adolygiad annibynnol lle bo hynny'n briodol.

ATODIADAU

Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol

BIL CAFFAEL Y GWASANAETH IECHYD (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) fel y'i cyflwynwyd i Senedd Cymru ar 13 Chwefror 2023.
2. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil ac i helpu'r drafodaeth arno. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan y Senedd.
3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol hyn ar y cyd â'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Pan fo'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad na sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL

4. Mae 5 adran i'r Bil. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau yn Neddf Caffael 2023 (Bil ar hyn o bryd sy'n cael ei ystyried gan Senedd y DU, ac y mae'r ddau Dŷ wedi cytuno ar ei egwyddorion cyffredinol) a fyddai fel arall yn berthnasol wrth gaffael gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, i'r graddau y mae darpariaeth amgen wedi ei gwneud mewn cysylltiad â hynny. Mae'r Bil hefyd yn galluogi Gweinidogion i greu cyfundrefn gaffael amgen newydd ar gyfer y gwasanaethau hyn. Nid yw'n rhagnodi manylion ynghylch cynnwys unrhyw gyfundrefn newydd, a fyddai'n cael eu nodi mewn rheoliadau a ddatblygir o dan y Bil.

5. Nid yw'r Bil ond yn gymwys i gaffael gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd, a nwyddau neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny. Bydd ffurfiau eraill ar gaffael a gyflawnir gan y sector iechyd yn parhau'n ddarostyngedig i reolau presennol Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, hyd nes y caiff y rhain eu disodli gan unrhyw ddiwygiadau caffael ehangach yn y dyfodol.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 2 - Pŵer i ddatgymhwyso rheolau caffael mewn perthynas â chaffael y GIG yng Nghymru

6. Mae adran 2 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau yn Neddf Caffael 2023, i'r graddau y maent yn anghyson â darpariaethau amgen a wneir mewn cysylltiad â chaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae hyn i'w wneud drwy fewnosod adran newydd (y bwriedir iddi fod yn adran 120A ar hyn o bryd) yn Neddf Caffael 2023.
7. Mae is-adran (1) o'r adran newydd 120A yn darparu'r pŵer y cyfeirir ato uchod i Weinidogion Cymru, sydd i'w arfer drwy wneud rheoliadau (drwy offeryn statudol).
8. Mae is-adran (2) yn darparu gwybodaeth ychwanegol am sut y mae'r pŵer yn is-adran (1) yn gweithredu, drwy ddiffinio dau derm perthnasol.
9. Yn gyntaf, mae'n esbonio mai ystyr y cyfeiriad yn is-adran (1) at 'regulated health service procurement in Wales' yw caffael nwyddau a gwasanaethau a gyflawnir gan 'relevant authority' o dan y trefniadau i'w gwneud o dan adran newydd 10A sydd i'w mewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan adran 3 o'r Bil hwn. Bydd y pŵer i ddatgymhwyso'r darpariaethau hyn ar gael i Weinidogion Cymru ni waeth a yw rheoliadau a wneir o dan yr adran 10A arfaethedig o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi dod i rym.
10. Yn ail, mae is-adran (2) hefyd yn esbonio bod i'r cyfeiriad at 'relevant authority' yr un ystyr ag a geir yn yr adran newydd 10A sydd i'w mewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hyn yn golygu bod y term 'relevant authority' yn cynnwys awdurdodau lleol yng Nghymru, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG (er enghraifft Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) ac awdurdodau iechyd arbennig (er enghraifft Addysg a Gwella Iechyd Cymru, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru).
11. Yn unol ag adran 122(10) (bresennol) o'r hyn a ddaw'n Ddeddf Caffael 2023, mae rheoliadau a wneir o dan yr adran sydd i'w mewnosod yn y Ddeddf honno gan y Bil

hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i Senedd Cymru eu cymeradwyo cyn y gellir eu gwneud.

Adran 3 – Caffael gwasanaethau etc. fel rhan o'r GIG yng Nghymru

12. Dylid darllen yr adran hon ar y cyd ag adran 2, gan ei bod yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru i roi trefniadau newydd yn eu lle ar gyfer caffael y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Os bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer caffael y gwasanaeth iechyd drwy reoliadau a wneir o dan yr adran hon, bydd rhwymedigaeth ar awdurdodau perthnasol i ddilyn y trefniadau hynny yn hytrach na deddfwriaeth gaffael ehangach wrth gaffael gwasanaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Bydd y trefniadau newydd hyn, unwaith y cânt eu cyflwyno, yn cymryd lle'r trefniadau blaenorol, y mae Gweinidogion yn gallu eu datgymhwyso drwy reoliadau a wneir o dan adran 2 ond dim ond i'r graddau y maent yn gymwys i gaffael gwasanaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.
13. Mae adran 3 yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru i gyflwyno gofynion deddfwriaethol newydd drwy reoliadau. Byddai'r rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion sy'n gymwys i'r modd y mae awdurdodau perthnasol yn caffael gwasanaethau fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn ogystal â nwyddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny.
14. Mae'r Bil yn gwneud hyn drwy ddiwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i fewnosod adran newydd (adran 10A). Mae geiriad llawn yr adran newydd sy'n cael ei mewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi ei nodi yn is-adran (2).
15. Mae adran newydd 10A o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn rhagnodi nifer o faterion y mae rhaid i'r rheoliadau newydd eu cwmpasu. Felly, mae cynnwys y rhain yn ofyniad deddfwriaethol ac nid yw'n fater o ddisgresiwn i Weinidogion Cymru wrth ddatblygu'r rheoliadau. Mae is-adrannau (2) a (3) o'r adran newydd 10A yn darparu bod rhaid i'r rheoliadau gynnwys manylion ynghylch y prosesau y mae angen i awdurdodau perthnasol eu dilyn wrth gyflawni ymarfer tendro cystadleuol, yn ogystal â darparu bod rhaid i'r rheoliadau gefnogi egwyddorion caffael allweddol, sef tegwch, priodoldeb a bod yn agored.
16. Mae is-adran (6) o'r adran newydd 10A yn darparu bod rhaid i reoliadau sy'n manylu ar gyfundrefn newydd ar gyfer caffael y gwasanaeth iechyd ddod gyda chanllawiau priodol ar gyfer awdurdodau perthnasol. Mae is-adran (7) yn gosod gofyniad cyfatebol ar awdurdodau perthnasol i roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn. Mae is-adran (8) yn diffinio 'relevant authorities' at y dibenion hyn – mae'r diffiniad yr un fath â'r un y cyfeirir ato ym mharagraff 10 o'r Nodiadau Esboniadol hyn.

17. Mae is-adran (3) o adran 3 o'r Bil yn gwneud ychwanegiad cysylltiedig pellach at Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hyn yn ychwanegu'r rheoliadau y caniateir eu gwneud o dan yr adran newydd 10A, sydd newydd ei mewnosod, o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 at y rhestr o reoliadau (yn y Ddeddf honno) sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i Senedd Cymru eu cymeradwyo cyn y gellir eu gwneud.

Atodiad 2 – Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Rheol sefydlog		Adran	tudalennau/paragraffau
26.6(i)	Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd	Datganiad yr Aelod	Tudalen 2
26.6(ii)	Nodi amcanion polisi y Bil	Rhan 1 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	Pennod 3, Tudalen 7 / Paragraffau 5-29
26.6(iii)	Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Pennod 6, Tudalen 25 / Paragraffau 64-72
26.6(iv)	Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol: (a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu; (b) manylion y Bil, a (c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau)	Rhan 1 – Ymgynghori	Pennod 4, Tudalen 14 / Paragraffau 35-50
26.6(v)	Nodi crynodeb o ddeilliant yr	Rhan 1 –	Pennod 4,

Rheol sefydlog		Adran	tudalennau/paragraffau
	ymgynggori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio	Ymgynghori	Tudalen 14 / Paragraffau 35-50
26.6(vi)	Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Rhan 1 - Ymgynghori	Pennod 4, Tudalen 14 / Paragraffau 35-50
26.6(vii)	Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil	Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol	Tudalen 38 / - adrannau 4 a 5
26.6(viii)	Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> (a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt; (b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt; (c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil; (d) dros ba gyfnodau amser y disgwyliad i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac (e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio 	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Pennod 6, Tudalen 27 / Paragraffau 73-101
26.6(ix)	Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n	Rhan 2 – Aseiad Effaith	Pennod 6, Tudalen 32 /

Rheol sefydlog		Adran	tudalennau/paragraffau
	deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol	Rheoleiddiol	Paragraffau 98-101
26.6(x)	<p>Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:</p> <p>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;</p> <p>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac</p> <p>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);</p>	Rhan 1 – Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	Pennod 5, Tudalen 17 / Tablau 1 a 2
26.6(xi)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio	Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn	Amherthnasol
26.6(xii)	Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Pennod 8, Tudalen 36 / Paragraffau 120-121

Rheol sefydlog		Adran	tudalennau/para graffau
26.6B	Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.	Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6 B yn gymwys i'r Bil hwn	Amherthnasol
26.6C	Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil.	Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6C yn gymwys i'r Bil hwn	Amherthnasol

Atodiad 3 – Aseiad Effaith Integredig – Adrannau 1 ac 8



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Aseiad Effaith Integredig

Adrannau 1 ac 8
crynodeb a chasgliad

Medi 2022
Fersiwn 2 (diwygiwyd Gorffennaf 2023)

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

1. Newidiadau i gaffael gwasanaethau iechyd yn y DU

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, mae cynigion i newid y ffordd mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati ar hyn o bryd i gaffael nwyddau a gwasanaethau yn y DU. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau o dan y Bil Caffael sy'n cael ei ystyried gan y Senedd yn San Steffan ar hyn o bryd. Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud y penderfyniad i awdurdodau contractio Cymru gael eu cynnwys yn niwygiadau caffael Llywodraeth y DU.

Ar wahân i hyn, mae cynigion i newid y ffordd y bydd gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu caffael yn Lloegr o ganlyniad i gyflwyno Deddf Iechyd a Gofal 2022²¹ Llywodraeth y DU. Mae'r Ddeddf hon yn diwygio Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 ac yn galluogi i'r gyfundrefn ar gyfer caffael gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr gael ei thynnu o gwmpas rheolau caffael sy'n gymwys ar hyn o bryd (a nodir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Rheoliadau 2015)) ac i set newydd o reolau caffael gael ei rhoi ar waith i ddisodli Rheoliadau 2015. Mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu cyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, sef y Gyfundrefn Dethol Darparwyr (PSR)²² fel y gyfundrefn gaffael i ddod o hyd i wasanaethau iechyd penodedig yn Lloegr.

Nod y PSR yw symud i ffwrdd o'r disgwyliad i dendro contractau gwasanaethau iechyd o dan yr holl amgylchiadau a symud tuag at system o gydweithio a phartneriaeth, a fydd yn ceisio cefnogi uno gwasanaethau ar draws y system iechyd a gofal gyfan. Mae'r dull hwn yn bwriadu cael gwared ar lefelau diangen o dendro cystadleuol, annog arloesi a hyrwyddo datblygiad cydweithio sefydlog.

Nod y PSR yw rhoi'r hyblygrwydd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn GIG Lloegr a sefydliadau llywodraeth leol yn Lloegr i drefnu gwasanaethau gofal iechyd sy'n hyrwyddo orau fuddiannau cleifion a'r boblogaeth yn eu hardaloedd, yn ogystal ag ystyried y gwerth am arian cyhoeddus.

2. Trefniadau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd

Mewn sefyllfaoedd lle mae GIG Cymru angen cymorth neu allu arbenigol i ddarparu elfennau penodol o ofal cleifion, mae'n comisiynu gwasanaethau gan sector elusennol/darparwyr preifat yng Nghymru a Lloegr (a elwir yn 'ddarparwyr nad ydynt yn

²¹ [Deddf Iechyd a Gofal 2022 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

²² [Provider Selection Regime: supplementary consultation on the detail of proposals for regulations - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

rhan o'r GIG'). Mae GIG Cymru yn comisiynu darparwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG i ddarparu gwasanaethau ar draws ystod eang o ddisgyblaethau, gan gynnwys:

- Gwasanaethau Iechyd Meddwl, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed;
- Gwasanaethau Anabledd Dysgu;
- Cartrefi Gofal a Chartrefi Nyrsio;
- Gofal Cartref, gan gynnwys Llety â Chymorth; a
- Gofal pobl hŷn.

O dan gyfundrefn bresennol Rheoliadau 2015, mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu caffael ar hyn o bryd gan GIG Cymru drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys cytundebau rhwng GIG Cymru a GIG Lloegr, fframweithiau yn ôl y gofyn neu drwy ymarferion caffael.

3. Effaith newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU ar drefniadau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd

Mae cyflwyno'r PSR arfaethedig yn berthnasol i gyfundrefn gaffael y GIG yn Lloegr yn unig ac ni fydd yn berthnasol i gaffael gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru. Yng Nghymru, bydd y gwasanaethau iechyd yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn gaffael gyhoeddus a nodir yn Rheoliadau 2015, hyd nes y disoddir y rheoliadau hyn gan y diwygiadau caffael cyhoeddus ehangach sydd i'w gweithredu drwy Fil Caffael Llywodraeth y DU.

Mae union fanylion sut y bydd y PSR yn gweithredu yn Lloegr yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gan DHSC fel rhan o is-ddeddfwriaeth, ac mae GIG Lloegr yn datblygu canllawiau.

Mae'r sefyllfa bresennol yn golygu y bydd dwy gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd ar wahân yn gymwys yng Nghymru a Lloegr wedi i'r newidiadau arfaethedig yn Lloegr ddod i rym. Mae arweinwyr caffael a chomisiynu GIG Cymru wedi dweud y gallai cael dwy gyfundrefn caffael gwasanaethau gofal iechyd wahanol godi nifer o broblemau ymarferol i'r sector. Mae'r problemau posibl yn cynnwys:

- Aflunio'r platfform caffael gwasanaethau iechyd wedi'i alinio sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng Cymru a Lloegr;
- Effeithio ar y gallu i gomisiynu gwasanaethau iechyd ar sail gydweithredol rhwng GIG Lloegr a GIG Cymru, a manteision cysylltiedig arbedion maint ariannol ac adnoddau;
- Anawsterau posibl i GIG Cymru wrth geisio cael mynediad at fframweithiau presennol y gwasanaeth gofal iechyd;

- Effeithio ar awydd cyflenwyr i gyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru o ganlyniad i orfod cymryd rhan mewn gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio caffael ac ymgymryd ag ymarferion tendro cystadleuol, gan o bosibl gynyddu costau a phwysau adnoddau i GIG Cymru wrth gaffael a denu cyflenwyr o ansawdd uchel yn y dyfodol.

Felly, er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau posibl sy'n deillio o weithredu dwy gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd wahanol rhwng Cymru a Lloegr, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod â GIG Cymru i archwilio gwerth gweithredu cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru (a allai alinio â dull PSR DHSC neu gyflwyno cyfundrefn sy'n addas i'r diben fel arall i ddiwallu anghenion Cymru). Byddai hyn yn ceisio sicrhau cydraddoldeb rhwng GIG Cymru a GIG Lloegr wrth ddod o hyd i ddarparwyr gwasanaethau iechyd a rhoi cyfle i ddefnyddio dull hyblyg a chreadigol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion pobl Cymru.

4. Mecanwaith – pwerau deddfwriaeth sylfaenol i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru

Bydd angen pwerau deddfwriaeth sylfaenol ar Weinidogion Cymru i wneud newidiadau i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn yn addas i'r diben yng nghyd-destun diwygiadau ehangach ym maes caffael. Bydd y Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn ceisio rhoi'r gallu i Weinidogion dynnu'r gyfundrefn caffael gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd yng Nghymru o gyfundrefn bresennol Rheoliadau 2015 a Bil Caffael arfaethedig Llywodraeth y DU, drwy roi:

- Pŵer i wneud rheoliadau i ddatgymhwyso darpariaethau Deddf Caffael 2023 mewn perthynas â chaffael gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru;
- "Pŵer creu" i alluogi Gweinidogion Cymru i weithredu, drwy reoliadau, gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru.

5. Effaith cynigion y Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Bydd y newidiadau a gynigir o ganlyniad i'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth er mwyn cyflwyno cyfundrefn gaffael bwrpasol newydd a fydd yn berthnasol i wasanaethau iechyd penodol GIG Cymru ac yn datblygu canllawiau caffael newydd ar gyfer y gyfundrefn newydd hon. Mae'r newidiadau'n rhoi cyfle i

ddatblygu cyfundrefn yn y dyfodol sy'n caniatáu'r opsiwn i fabwysiadu dull tebyg i'r PSR yn Lloegr. Bydd hyn yn gyfle i weithwyr clinigol a chaffael proffesiynol yng Nghymru ymrwymo llai o adnoddau ar weithgarwch tendro a chanolbwyntio ar fwy o weithgareddau sy'n ychwanegu gwerth, megis rheoli contractau, monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol a datblygu partneriaethau cydweithredol, gan gynnal egwyddorion allweddol ynghylch ystyriaethau gwerth am arian ar yr un pryd. Bydd mabwysiadu dull o'r fath yng Nghymru yn helpu i sicrhau tegwch ym maes caffael i gefnogi gofal cleifion, adfer o effaith Covid-19 ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a helpu i sicrhau gwell canlyniadau iechyd a gofal cleifion o ansawdd gwell.

O ganlyniad i gyflwyno'r PSR yn Lloegr, bydd newidiadau i'r cyfundrefnau caffael gwasanaethau gofal iechyd yn digwydd rhwng Cymru a Lloegr, hyd yn oed os nad yw Gweinidogion Cymru yn dewis ceisio pwerau sylfaenol i weithredu cyfundrefn newydd. Bydd yr 'opsiwn gwneud dim' yn golygu bod angen i'r gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru addasu i'r newidiadau ehangach sy'n digwydd yn sgil Bil Caffael Llywodraeth y DU er mwyn disodli'r rheoliadau caffael presennol.

Hyd yn oed o dan yr opsiwn a ffeirir, sef gweithredu cyfundrefn caffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru yn seiliedig ar y PSR, efallai y bydd cyfnod interim hefyd lle bydd angen i gaffaelwyr a chomisiynwyr wneud addasiadau gweithdrefnol a llywodraethu i addasu i'r newidiadau ehangach sy'n cael eu cyflwyno gan y Bil Caffael.

Bydd angen i gaffaelwyr a chomisiynwyr hefyd fabwysiadu cyfundrefn newydd y Bil Caffael os ydynt yn cyrchu nwyddau a gwasanaethau eraill a fyddai'n disgyn y tu allan i gwmpas y gyfundrefn newydd.

Bydd y newidiadau gofynnol a'r effeithiau ar weithdrefnau a llywodraethu yn dibynnu ar ddyddiadau cyflwyno'r PSR yn Lloegr, Bil Caffael Llywodraeth y DU a'r amserlenni ar gyfer gweithredu unrhyw reoliadau a wneir o dan Fil Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru).

Bydd angen i gaffaelwyr a chomisiynwyr gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru ystyried sut y byddant yn addasu prosesau caffael i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cynllun rheoleiddio perthnasol ar unrhyw adeg. Bydd hyn yn cynnwys addasu gweithdrefnau o dan Fil Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru) a chyfundrefn Bil Caffael Llywodraeth y DU sydd ar ddod.

6. Yr Effaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Ni fydd y pwerau sylfaenol arfaethedig o dan y Bil yn cael **unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol uniongyrchol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**, ond mae'n darparu pwerau sy'n rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i weithredu cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd.

Fel rhan o'r asesiad effaith integredig a wnaed ar gyfer y Bil, ystyriwyd sut y bydd y Bil ac unrhyw is-ddeddfwriaeth ddilynol yn rhyngweithio â'r nodau llesiant cenedlaethol o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**,²³ y pum ffordd o weithio a'r saith nod llesiant.

'Dyletswydd Llesiant' a'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae angen i gyrff cyhoeddus yng Nghymru sicrhau bod eu penderfyniad a'u gweithredoedd yn ystyried yr effaith ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- i. Hirdymor
- ii. Atal
- iii. Integreiddio
- iv. Cydweithio
- v. Cynnwys

²³ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

Y saith nod llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, y newid yn yr hinsawdd).
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Effeithiau penodol yn ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i ystyried yng ngoleuni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac unrhyw effeithiau'r Bil ac unrhyw is-ddeddfwriaeth ddilynol. Crynhoir hyn isod:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac effeithiau ar les cymdeithasol

Bydd unrhyw newidiadau a gynigir o ganlyniad i'r Bil ac unrhyw is-ddeddfwriaeth ddilynol yn cael eu gweithredu gan GIG Cymru ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru sydd, fel cyrff cyhoeddus Cymru, â dyletswydd i gydymffurfio ag Adran 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae hyn yn cynnwys ystyried yn llawn sut mae penderfyniadau a gweithgareddau yn bodloni'r 7 nod llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys bodloni gofynion i geisio sicrhau '**Cymru iachach**'. Mae hyn yn sicrhau bod lles corfforol a meddyliol unigolion cystal â phosibl a bod sefydliadau'n gwneud dewisiadau i sicrhau bod gweithgareddau'n cyfrannu at wella iechyd pobl Cymru yn y dyfodol. Bydd y Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn darparu mecanwaith i barhau i ddarparu gofal iechyd hygyrch o ansawdd uchel ac yn sicrhau ei fod yn parhau i fod ar gael i holl ddinasyddion Cymru.

Dylai unrhyw newidiadau o ran gweithredu caffael gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru sicrhau y bydd gan bob grŵp poblogaeth fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Ni ragwelir y bydd unrhyw gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd yn cael effaith niweidiol ar grwpiau penodol sy'n gysylltiedig â rhyw/rhywedd, grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran, grwpiau sy'n wynebu risg o wahaniaethu neu anfantais gymdeithasol, grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm neu grwpiau daearyddol.

Mae gan unrhyw grwpiau neu bobl sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yr hawl i gael cymorth gan ddarparwyr iechyd yng Nghymru. Ni ddylai'r hawl hon gael ei heffeithio gan weithredu unrhyw gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd yng Nghymru o ganlyniad i'r Bil.

Bydd hefyd angen i'r Bil ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a chanllawiau dilynol ystyried yr effaith ar ddarparu gwasanaethau iechyd mewn cymunedau er mwyn cyflawni nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef '**Cymru o Gymunedau Cydlynus**'. Er enghraifft, sicrhau bod unrhyw gyfundrefn newydd yn galluogi parhad gwasanaethau i ganiatáu mynediad at wasanaethau iechyd mewn ardaloedd gwledig, neu i ddinasyddion nad ydynt yn gallu teithio i ddarparwyr gwasanaethau iechyd, yn enwedig pobl hŷn ac unigolion o gefndir economaidd-gymdeithasol is sydd o bosibl yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac effaith ar les economaidd

Busnes, y cyhoedd, unigolion a chyrrff cyhoeddus

Dylai unrhyw newidiadau o dan Fil Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru) geisio ystyried amcanion 'Ffyniant i Bawb – y cynllun gweithredu ar yr economi'²⁴ Llywodraeth Cymru, a cheisio darparu mwy o gyfleoedd i BBaChau yng Nghymru – yn enwedig y rhai yn yr economi sylfaenol, ardaloedd gwledig neu ardaloedd lle mae dirywiad economaidd; gan gefnogi swyddi gwell yn nes at adref.

Dylai hefyd geisio cefnogi cadwyni cyflenwi gwasanaethau iechyd i gefnogi twf yr economi leol a sylfaenol mewn ardaloedd gwledig. Bydd hyn hefyd yn ceisio cyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â **'Cymru Lewyrchus', 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal' a 'Cymru o Gymunedau Cydlynus'**.

Gallai'r Bil ac unrhyw gyfundrefn newydd ddilynol gynnwys newidiadau i'r ffordd mae gwasanaethau iechyd yn cael eu caffael ac, o bosibl, symud i ffwrdd o dendro cystadleuol. Gallai hyn arbed amser staff ac adnoddau ariannol i fusnesau yng Nghymru wrth baratoi a chyflwyno tendrau nad ydynt yn arwain at ddyfarnu contractau. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fusnesau llai a micro eu maint neu'r busnesau hynny yn y trydydd sector yng Nghymru nad oes ganddynt adnoddau staff na'r arbenigedd i lunio ceisiadau dro ar ôl tro heb ennill y gwaith. Gallai hyn gynnwys darparwyr gwasanaethau iechyd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru – gyda llawer ohonynt yn BBaChau a busnesau'r trydydd sector – a darparu cyfle i sicrhau contractau heb orfod cyflwyno cynnig mewn ymarferion tendro cymhleth, costus a llafurus.

Gallai unrhyw gyfundrefn newydd hefyd gynnig manteision ariannol ac adnoddau i gyrrff cyhoeddus sy'n caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru drwy lai o gostau gweinyddu hirdymor, gan roi cyfle i ryddhau staff ac adnoddau ariannol y gellid eu defnyddio'n well mewn mannau eraill o fewn y sector cyhoeddus mewn meysydd blaenoriaeth uchel eraill.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac effeithiau ar les diwylliannol a'r Gymraeg

Mae **'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'** wedi'i chynnwys yn un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; dylai'r Bil geisio cyflawni'r nod hwn drwy gefnogi thema 2 Cymraeg 2050: cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

²⁴ [Ffyniant i Bawb - y cynllun gweithredu ar yr economi](#)

Bydd y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ac unrhyw is-ddeddfwriaeth arfaethedig ar gyfer cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd yn cael eu mabwysiadu gan GIG Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru sydd wedi ymrwmo i Safonau'r Gymraeg a nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o geisio sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu. Rhaid i gyrff o'r fath gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn eu dyletswyddau gweinyddol o ddydd i ddydd ac wrth ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion Cymru. Ni fydd y cynigion yn y Bil yn newid yr ymrwymiad hwn.

Bydd y cynigion yn y Bil hefyd yn ceisio sicrhau bod unrhyw gyfundrefn newydd yn rhoi pwyslais ar ddylunio a darparu gwasanaethau iechyd o amgylch anghenion a dewisiadau unigolion. Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar ymrwymadau strategaeth Mwy na geiriau²⁵ fel y gall pobl gyfleu eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn eu dewis iaith.

Ni nodir unrhyw gysylltiad rhwng y cynigion yn y Bil a nodau diwylliannol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac effaith ar les amgylcheddol

Adnoddau Naturiol a bioamrywiaeth

Mae mesurau i gefnogi adnoddau naturiol eisoes wedi'u cynnwys fel rhan o rwymedigaethau ehangach i gyrff cyhoeddus fel GIG Cymru ac awdurdodau lleol gaffael gwasanaethau mewn ffordd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, sy'n ystyried cynaliadwyedd a bioamrywiaeth ac effeithlonrwydd adnoddau ac sy'n cyfyngu ar yr effaith ar amgylchedd Cymru. Mae hyn yn cael ei gysylltu'n benodol â rhwymedigaethau i bob corff cyhoeddus gyflawni nodau **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a nodau ynghylch 'Cymru gydnherth' a 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'**.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac effaith ar ddyletswyddau economaidd-gymdeithasol

Fel cyrff cyhoeddus yng Nghymru, mae dyletswydd ar GIG Cymru, awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r cynigion sy'n cael eu cynnwys fel rhan o adran 3 (3)-(5) o'r Bil drafft yn mynnu bod rhaid i unrhyw gyfundrefn gaffael newydd wneud darpariaethau i gyflwyno system drwy reoliadau er mwyn sicrhau tegwch, tryloywder a chydymffurfiaeth.

²⁵ [Mwy na geiriau](#)

7. Integreiddio'r Bil ar agendâu polisi eraill

Mae'r Bil wedi'i gyfyngu i roi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, dylai unrhyw reoliadau dilynol ar gyfer cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd geisio cyfrannu at nifer o ymrwymadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu²⁶.

Mae darparu **gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel** yn un o'r 10 prif amcan yn 'Rhaglen Lywodraethu' Llywodraeth Cymru.

Mae strategaeth '**Cymru Iachach**'²⁷ Llywodraeth Cymru yn nodi uchelgais i ddatblygu a chyflwyno dull newydd o ymdrin ag iechyd yn seiliedig ar arloesi, trawsnewid ac integreiddio ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r broses newid hon yn cael ei sbarduno ar hyn o bryd gan raglen drawsnewid sydd â'r nod o gefnogi ffyrdd newydd o weithio; datblygu modelau gofal newydd; a defnyddio arferion, prosesau a thechnolegau arloesol newydd i sbarduno newid arloesol a thrawsnewid ar draws byrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys defnyddio caffael fel galluogwr polisi strategol allweddol i gefnogi cyflawni blaenoriaethau Cymru Iachach, gan gynnwys dulliau newydd o brynu a chomisiynu i sbarduno mwy o arbedion cost ariannol, gwerth i gleifion ac effeithlonrwydd.

Yn ogystal â chyflawni blaenoriaethau Cymru Iachach, dylai'r gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig gefnogi'n gadarnhaol amcanion y 'Rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru'²⁸; gan gyfrannu at argaeledd gofal a gynlluniwyd a chryfhau'r gallu i ffurfio perthynas gydweithio lwyddiannus ag ystod eang o ddarparwyr a phartneriaid cyflenwi gwasanaethau iechyd i sicrhau mwy o gyfleoedd i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd a gynlluniwyd cynaliadwy yng Nghymru.

Dylai rheoliadau dilynol geisio cyfrannu at **raglen yr economi sylfaenol ar gyfer Cymru Iachach**²⁹ drwy annog cyfleoedd i ymgysylltu a negodi â chyflenwyr lleol a cheisio ffurfio partneriaethau cydweithredol ar gyfer arloesi yn GIG Cymru a'r sector gwasanaethau gofal iechyd. Bydd hyn yn cyfrannu at **Strategaeth Arloesi Integredig**³⁰ sydd ar ddod gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn annog cydweithio rhwng GIG Cymru,

²⁶ [Llywodraeth Cymru – Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad](#)

²⁷ [Cymru Iachach \(llyw.cymru\)](#)

²⁸ [Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#)

²⁹ [Rhaglen yr economi sylfaenol ar gyfer Cymru Iachach | LLYW.CYMRU](#)

³⁰ [Strategaeth Arloesi i Gymru \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

diwydiant, y byd academaidd a'r trydydd sector i ddatblygu a mabwysiadu arferion a thechnoleg fwy arloesol. Gallai'r gyfundrefn newydd hefyd roi mwy o gyfle i gydweithrediadau rhwng contractwyr a chleientiaid a sail gytundebol lai gelyniaethus, a allai sicrhau manteision o ran gwell contractau a chanlyniadau i gleifion.

Dylai unrhyw newidiadau hefyd geisio helpu i gyflawni amcanion **'Cynllun Gweithredu ar yr Economi - Ffyniant i Bawb'**³¹, Llywodraeth Cymru, gyda mwy o gyfleoedd yn cael eu darparu ar gyfer BBaChau Cymru - yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd o ddirywiad economaidd; gan gefnogi swyddi gwell yn nes at adref.

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Bydd pob 'awdurdod perthnasol' fel y'i diffinnir ym Mil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (ac eithrio Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol) yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd ac wedi'u cwmpasu gan y dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023³², ac mae'r ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol drosfwaol (yn adran 24(1) o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus) yn gymwys i bob ymarfer caffael cyhoeddus (gan gynnwys caffael gwasanaethau iechyd GIG) a gynhelir gan y cyrff hyn.

Hanfod y ddyletswydd hon o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yw cyflawni nodau llesiant ac felly bydd yn cwmpasu gwaith teg, cyfrifoldeb byd-eang (gan gynnwys mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a Masnach Deg), buddion economaidd lleol a lleihau anghydraddoldeb, lleihau carbon a gwastraff, defnyddio adnoddau cynaliadwy a gwella'r amgylchedd naturiol ac amrywiaeth.

³¹ [Ffyniant i bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi | LLYW.CYMRU](#)

³² [Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\) \(senedd.cymru\)](#)

ADRAN 8. CASGLIAD

Sut y mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

8. Ymgynghori:

Mae'r darpariaethau arfaethedig yn y Bil wedi'u cyfyngu i roi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, gydag **effeithiau uniongyrchol cadarnhaol neu negyddol cyfyngedig ar hyn o bryd**. Dim ond pan fydd pwerau gwneud rheoliadau yn cael eu defnyddio y bydd unrhyw effeithiau'n cael eu gwireddu, a byddant yn cael eu harchwilio ymhellach fel rhan o'r broses o ddatblygu rheoliadau.

9. Ymgynghori â GIG Cymru:

Cynhaliwyd ymgynghoriad ag arweinwyr cyllid, caffael a chomisiynu GIG Cymru yn ystod haf 2022. I grynhoi, nododd yr ymarfer hwn fod GIG Cymru yn gefnogol i fabwysiadu diwygiadau i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru, fel modd o ddatblygu dull sy'n addas i'r diben yn sgil y diwygiadau sy'n cael eu cyflwyno y tu allan i Gymru ar hyn o bryd (y gallent fod yn seiliedig ar y dull PSR yn Lloegr). Awgrymodd cydweithwyr GIG Cymru y gallai hefyd roi cyfle i weithredu prosesau caffael mwy effeithlon, a byddai hyn yn ei dro yn caniatáu i weithwyr clinigol a chaffael proffesiynol ymrwymo llai o adnoddau i weithgarwch tendro a chanolbwyntio ar fwy o weithgareddau sy'n 'ychwanegu gwerth' megis rheoli contractau, monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol a datblygu partneriaethau.

10. Ymgynghori â chyrrff cyhoeddus eraill a'r trydydd sector.

Ymgynghorwyd ag amryw o grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Phwyllgor Busnes Fforwm Partneriaeth Cymru.

I grynhoi, casglwyd adborth gan randdeiliaid ynghylch effaith bosibl y Bil ar wasanaethau a gweithwyr presennol GIG Cymru; tryloywder a thegwch dyfarnu contractau; gwell cyfleoedd i ymgysylltu â chyflenwyr gofal iechyd y trydydd sector a gwell cyfleoedd i gydweithio ar draws y sector a rhwng chyflenwyr a chyrrff comisiynu. Codwyd y cysylltiadau rhwng nodau'r Bil a mentrau diwygio caffael eraill sy'n cael eu harwain gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Cafodd pob grŵp wybod y byddai manylion unrhyw gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd yn cael eu trafod mewn unrhyw gam is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol ac

wrth ddatblygu canllawiau unrhyw gyfundrefn gofal iechyd newydd, gydag ymrwymiad i ymgysylltu ymhellach â'r grwpiau hyn ac ystyried y materion yn llawn bryd hynny.

Bydd ymgynghori â grwpiau o fyd diwydiant yn digwydd yn haf 2023.

Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

11. Effeithiau arwyddocaol

Fel y nodwyd uchod, mae'r darpariaethau arfaethedig yn y Bil wedi'u cyfyngu i roi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, gydag **effeithiau uniongyrchol cadarnhaol neu negyddol cyfyngedig ar hyn o bryd**. Dim ond pan fydd pwerau gwneud rheoliadau yn cael eu defnyddio y bydd unrhyw effeithiau'n cael eu gwireddu.

Fodd bynnag, ystyriwyd pob asesiad effaith penodol o fewn y templed Asesiad Effaith Integredig, gydag asesiadau effaith llawn ar gyfer cydraddoldeb, bioamrywiaeth, dyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r Gymraeg wedi'u cwblhau. Bydd dadansoddiad pellach o'r effeithiau posibl yn cael ei gynnal yn y cyfnod is-ddeddfwriaeth, gydag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Integredig.

Dim ond pan fydd pwerau gwneud rheoliadau yn cael eu defnyddio y bydd unrhyw effeithiau'n cael eu gwireddu. Bydd dadansoddiad pellach o'r effeithiau yn cael ei gynnal yn y cyfnod is-ddeddfwriaeth, gydag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Integredig.

Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

12. Monitro a gwerthuso

Dim ond pan fydd pwerau gwneud rheoliadau yn cael eu defnyddio y bydd unrhyw effeithiau'n cael eu gwireddu. Bydd dadansoddiad pellach o'r effeithiau yn cael ei gynnal yn y cyfnod is-ddeddfwriaeth, gydag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Integredig.

Os defnyddir pwerau gwneud rheoliadau yn y dyfodol ac os gwneir newidiadau i gyfundrefn caffael gwasanaethau'r GIG yng Nghymru, bydd effeithiau'r newidiadau hyn yn cael eu monitro fel rhan o fframweithiau cynllunio presennol Llywodraeth Cymru a GIG Cymru.

Atodiad 4 – Newidiadau o sylwedd i'r Memorandwm Esboniadol – Fersiwn 2 Gorffennaf 2023

Gwnaed y newidiadau canlynol i'r Memorandwm Esboniadol hwn yn dilyn Cyfnodau 1 a 2 o broses graffu'r Senedd:

Adran	Newidiadau
Pennod 6 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)	Diweddarau costau i weithredu cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd, gan gynnwys ddiweddariadau i gostau bandiau cyflog staff Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn 2023-24.
Pennod 8 – Crynodebau o'r Aseidiadau Effaith Integredig (IIA)	Diweddariadau yn sgil cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gyfer awdurdodau lleol. Diweddariadau i gynnwys penderfyniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch effaith y Bil ar y System Gyfiawnder.
Atodiad 1	Diweddariadau i'r Nodiadau Esboniadol i adlewyrchu'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • newidiadau technegol i'r rhifau mewn perthynas â'r 'pŵer datgymhwyso' ym Mil Caffael Llywodraeth y DU. • cynnwys dyletswydd i Weinidogion Cymru ymgynghori fel y gwelant yn briodol cyn gwneud rheoliadau. • cynnwys darpariaeth i sicrhau bod rhaid i'r deunydd esboniadol sy'n cyd-fynd ag unrhyw reoliadau gynnwys manylion ynghylch sut y mae'r rheoliadau hynny'n gwneud darpariaeth ar gyfer egwyddorion caffael allweddol.
Atodiad 3	Cynnwys adran 1 (crynodeb) ac adran 8 (casgliad) o'r IIA.